# Y wybodaeth ddiweddaraf am yr Hunanasesiad o Berfformiad: Hydref i Ragfyr 2022

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad y cyngor yn erbyn ei amcanion a meysydd llywodraethu rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022, yn cynnwys ein defnydd o egwyddor Datblygu Cynaliadwy, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach | 2 |
| Crynodeb o'r sefyllfa | 4 |
| Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad | 5 |
| Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl | 6 |
| Sir Ddinbych ffyniannus | 9 |
| Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus | 11 |
| Sir Ddinbych sydd yn dysgu a thyfu | 13 |
| Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well | 15 |
| Sir Ddinbych mwy gwyrdd | 17 |
| Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal | 20 |
| Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | 23 |
| Iechyd Corfforaethol: Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad | 25 |

## Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth, neu i adael i ni wybod eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, gallwch gysylltu â ni:

**Drwy e-bost:** timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

**Drwy'r post**:

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,
Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62,
Rhuthun,
LL15 9AZ

Rydym yn croesau gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi o ran ymateb i ohebiaeth a derbynnir yn Gymraeg.

### I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i Borth Llais y Sir a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i Newyddlen Llais y Sir

## Crynodeb o'r sefyllfa

Cafodd Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a garem, ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Hydref 2022. Mae'r Cynllun Corfforaethol newydd yn cynnwys amcanion llesiant, cydraddoldeb a gwella sefydliadol ar gyfer y cyngor.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys naw thema, pob un yn cynnwys ystod o addewidion. Y naw thema yw:

1. Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl
2. Sir Ddinbych ffyniannus
3. Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus
4. Sir Ddinbych sydd yn dysgu a thyfu
5. Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well
6. Sir Ddinbych mwy gwyrdd
7. Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal.
8. Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
9. Iechyd Corfforaethol: Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad

Ers mis Tachwedd, mae Swyddogion Cynllunio Strategol a Pherfformiad wedi arwain trafodaethau gydag aelodau'r Cabinet, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, rheolwyr a staff ar bob lefel, i bennu'r set strategol gywir o fesurau a gweithgarwch i'w monitro trwy'r adroddiadau perfformiad hyn yn y dyfodol. Mae hwn wedi bod yn ymarfer gwerthfawr sydd wedi helpu i wella ein dealltwriaeth o'r gwaith presennol sy'n digwydd o fewn gwasanaethau, mesurau sy'n bodoli, ac i helpu i godi ymwybyddiaeth o, a nodi rhyngddibyniaethau o fewn y Cynllun Corfforaethol newydd. Rydym hefyd wedi ymgorffori ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n hamcanion yn y gwaith hwn. Mae llawer iawn o waith i'w wneud eto cyn cyrraedd set derfynol o ddangosyddion, ond y gobaith yw y bydd sail y fframwaith yn cael ei gytuno, ac yn ei le, mewn pryd ar gyfer ein hadroddiad nesaf ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn y cyfamser, mae'r penodau isod yn rhoi crynodeb o'r gweithgarwch sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod diwethaf (Hydref i Ragfyr) o dan themâu ein Cynllun Corfforaethol newydd, gyda chrynodeb o newyddion cyfrannol ac eitemau pwyllgor.

Mae'n bwysig nodi na ellir bwrw ymlaen â phob thema ar wahân i'r themâu eraill yn ein Cynllun Corfforaethol. Mae rhyngddibyniaethau clir yn bodoli rhwng llawer o'r themâu.

## Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad

Yn Sir Ddinbych, ein dull arferol o bennu trothwyon perfformiad yw cymryd y chwartel uchaf (y perfformwyr gorau) o'r wybodaeth gymharol yn genedlaethol a gosod hwnnw fel y trothwy lle caiff perfformiad ei ystyried yn 'Rhagorol'. Y canolrif yw'r trothwy 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' fel arfer. Y man yn y canol rhwng y gwerthoedd hynny yw'r trothwy rhwng perfformiad 'Derbyniol' a 'Da'.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag eraill (naill ai'n genedlaethol neu â grwpiau cymharol) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy'n berfformiad 'Rhagorol', ac yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Dylai hyn adlewyrchu ein huchelgeisiau.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn rheoli perfformiad, ewch i weld y Canllaw i Reoli Perfformiad ar ein gwefan.

## Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl

Mae’r thema hon yn cymhwyso’r pum ffordd o weithio (**cydweithio, cyfranogi, hirdymor, integreiddio, atal**) ac mae’n cefnogi Nodau Llesiant Cymru’n uniongyrchol o amgylch **ffyniant, cydnerthedd amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, diwylliant bywiog gyda’r Gymraeg yn ffynnu** a **chyfrifoldeb byd-eang.**

Mae'r thema hon yn ceisio sicrhau bod digon o dai o ansawdd da ar gael, gan ddiwallu anghenion holl drigolion Sir Ddinbych yn yr **hirdymor.** Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn darparu mwy o gartrefi fforddiadwy, tai cyngor ac arbenigol i ddiwallu anghenion a galw lleol. Byddwn yn integreiddio ein gwaith â chynlluniau Llywodraeth Cymru i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd a rheoleiddio effaith ail gartrefi.

Mae'r thema hon yn golygu ein bod yn gweithio'n **ataliol** i gefnogi'r rhai a allai fod o dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn ogystal â bod o fudd i nodweddion gwarchodedig megis **oedran** ac **anabledd**. I gefnogi hyn, rydym am sicrhau bod tai o safon ar gael sy'n diwallu anghenion pobl ddiamddiffyn, a’u helpu i fyw bywydau annibynnol mewn llety priodol am gyn hired â phosibl. Ein nod yw **atal** digartrefedd a sicrhau, os bydd pobl yn profi digartrefedd, bod yr achosion hynny'n brin, am gyfnodau byr ac na chaiff ei ail-adrodd. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithredu Cynllun Ailgartrefu Cyflym Sir Ddinbych, y cytunwyd arno ac a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Gallai cynyddu **cyfranogiad** tenantiaid a sicrhau bod ein preswylwyr yn cael gwybod am yr opsiynau tai sydd ar gael, gan gynnwys **cydweithio** i gyfeirio preswylwyr i wella effeithlonrwydd eu cartrefi, fod o fudd i’r rhai sydd dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** a helpu i **atal** tlodi tanwydd. Mae uwchraddio stoc tai’r cyngor i sicrhau ei fod yn ddiogel, yn cael ei gynnal a’i gadw’n dda, yn effeithlon o ran ynni ac wedi’i inswleiddio’n dda, a lle bo’n bosibl, yn addas ar gyfer anghenion preswylwyr - er enghraifft, y rhai ag **anableddau** - yn cefnogi ein themâu ehangach o gwmpas Sir Ddinbych gwyrddach, tecach, diogel a mwy cyfartal.

Mae pawb sydd â **nodweddion gwarchodedig** yn cael eu hystyried trwy ein holl waith fel cyngor, ac adlewyrchir hyn yn ein cynlluniau, polisïau a gweithdrefnau.

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, argymhellodd y Cabinet y dylai'r cytundeb cyflawni diwygiedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd 2018 i 2033 fynd ymlaen i'r Cyngor i'w gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cymeradwywyd y Cytundeb wedi hynny gan y Cabinet ym mis Rhagfyr a chan Lywodraeth Cymru.

Dechreuodd gwaith ailddatblygu yn Llys Awelon Grŵp Cynefin, Rhuthun ym mis Hydref 2022, sef prosiect gofal ychwanegol gwerth £12.2m i greu 35 yn fwy o gartrefi gofal ychwanegol mewn cynllun modern, carbon isel i ddiwallu anghenion pobl hŷn yn Sir Ddinbych.

Cymeradwyodd y Cabinet y polisi gosod lleol ar gyfer cartrefi newydd yn Llwyn Eirin, Dinbych a fydd yn dyrannu 22 o gartrefi newydd ar rent cymdeithasol i greu cymysgedd o aelwydydd i ffurfio cymuned newydd wydn tra'n diwallu angen lleol am dai.

Ym mis Hydref, dechreuodd gwelliannau ynni a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 17 eiddo Tai Sir Ddinbych ar Ganol-Y-Dre, Rhuthun, a oedd yn cynnwys gosod paneli solar a gwella inswleiddio waliau allanol.

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Tachwedd, ynghylch canlyniad ymarfer tendro ar gyfer Prosiect Cymorth Llety Brys Dros Dro newydd. Cymeradwyodd y Cabinet ddyfarnu'r contract i'r darparwr gwasanaeth a enwyd a argymhellwyd.

Cadarnhaodd Cabinet Cyngor Sir Ddinbych ym mis Tachwedd newidiadau o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer rheoli tenantiaethau tai cyngor, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr, 2022. Nod y Ddeddf yw symleiddio rhentu cartref yng Nghymru. Mae Contractau Meddiannaeth Ddiogel newydd yn disodli'r defnydd o Denantiaethau Rhagarweiniol ar gyfer tenantiaid y cyngor ac mae'r Ddeddf yn cyflwyno gofyniad landlord newydd a elwir yn safon Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi.

Ym mis Tachwedd, mynychodd landlordiaid Sir Ddinbych Fforwm Landlordiaid Sir Ddinbych a chael diweddariadau gan Rhentu Doeth Cymru, tîm Atal Digartrefedd Sir

Ddinbych ar y Cynllun Prydlesu Rhent Preifat, a chan Gymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl ar y Ddeddf Rhentu Cartrefi.

Ym mis Rhagfyr, cymeradwyodd y Cabinet Gyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023 i 2024 a Chynllun Busnes y Stoc Tai, a phenderfynodd gynyddu rhenti ar gyfer anheddau cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol o 5% o 3 Ebrill, 2023.

## Sir Ddinbych ffyniannus

Mae’r thema hon yn cymhwyso’r pum ffordd o weithio (**cydweithio, cyfranogi, hirdymor, integreiddio, atal**) ac mae’n cefnogi Nodau Llesiant Cymru’n uniongyrchol o amgylch **ffyniant, cydnerthedd amgylcheddol, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang a diwylliant bywiog gyda’r Gymraeg yn ffynnu**.

Mae'r thema hon yn cynnwys nifer o addewidion arwyddocaol. Ein nod yw **cydweithio** â chymunedau a phartneriaid i gyflawni prosiectau a fydd yn ysgogi twf economaidd yn yr **hirdymor** hir, er budd y rhai a all fod dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag Uchelgais Gogledd Cymru ar brosiectau Bargen Twf Gogledd Cymru; cefnogi Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru; darparu Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU; cwblhau Marchnad y Frenhines newydd yn y Rhyl; a chefnogi ailddatblygu hen Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych.

Bydd ein haddewid arall i ddatblygu strategaeth economaidd yn darparu dulliau **integredig** i dyfu economi werdd Sir Ddinbych, cefnogi busnesau gwledig, adfywio canol trefi a gwella twristiaeth. Bydd darparu cyngor a chymorth yn helpu busnesau, gan gynnwys busnesau cymunedol a mentrau cymdeithasol, i gryfhau a thyfu, ac yn helpu i sicrhau manteision cymunedol lleol drwy ein partneriaethau caffael a chymdeithasol. Dylai'r dull hwn gefnogi ymdrechion ehangach i alluogi trigolion i gael mynediad at gyflogaeth ac incwm teilwng, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac **anfantais economaidd-gymdeithasol** a'u **hatal**. Ein nod yw cynyddu **cyfranogi** trwy ddarparu cyngor a chefnogaeth i wella twf busnes ac economaidd gyda buddion i'n cymunedau lleol.

Nid yw'r thema hon yn ceisio bod o fudd uniongyrchol i nodweddion gwarchodedig **Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Hil; Crefydd a Chred**; a **Rhyw**. Fodd bynnag, mae pawb sydd â **nodweddion gwarchodedig** yn cael eu hystyried trwy ein holl waith fel cyngor, ac adlewyrchir hyn yn ein cynlluniau, polisïau a gweithdrefnau.

### Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a’r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi’r thema hon:

Enillodd prosiect partneriaeth a alluogwyd gan Jones Bros yng nghyfleuster Trosglwyddo Gwastraff newydd Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer gwastraff domestig, masnach a phriffyrdd wobr ICE Cymru 2022 ar gyfer Ymgysylltu â'r Gymuned. Roedd y cynllun yn cynnwys cydweithio gyda phedwar perchennog busnes lleol er mwyn datblygu naw hectar o dir glas cymhleth.

Enillodd Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth y cyngor, cwrs ar-lein arloesol sy'n darparu hyfforddiant am ddim i'r rhai sy'n dymuno dyfnhau eu gwybodaeth o'r sir, Wobr The Go Skills yng Ngwobrau Twristiaeth Go North Wales.

Mewn ymgais i gefnogi busnesau a chymunedau lleol, cynhaliodd y Cyngor ei fenter 'Am Ddim wedi Tri' yn y rhan fwyaf o'i feysydd parcio rhwng 21 Tachwedd a 31 Rhagfyr 2022 ac ymgyrch gaeaf #CaruBusnesauLleol i siopa lleol a Strydoedd Mawr lleol.

Ym mis Rhagfyr, gwahoddwyd disgyblion Tir Morfa ac Ysgol Glan Clwyd i arwyddo ac ychwanegu negeseuon ar drawstiau dur i'w gosod ar safle Marchnad y Frenhines newydd fel rhan o gynlluniau adfywio Canol Tref y Rhyl.

# Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus

Mae'r thema hon yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio ac yn cefnogi'n uniongyrchol Nodau Llesiant Cymru o amgylch **ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang, a diwylliant bywiog gyda'r Gymraeg yn ffynnu.**

Mae'r thema hon yn addo sicrhau bod arlwy gofal cymdeithasol y cyngor o safon uchel. Rydym eisiau hyrwyddo diogelwch, gwytnwch a lles pobl o bob oedran, gan ddefnyddio rhwydweithiau cymunedol cryf a galluogi pobl i fyw'n ddiogel, hapus, annibynnol a derbyn cymorth lle bo'r angen. Mae hyn yn cynnwys trwy hyrwyddo diwylliant cryf o ddiogelu, darparu'r gofal a'r cymorth gorau posibl trwy ein rôl Rhianta Corfforaethol a chefnogi'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion cymhleth, gan elwa nodwedd warchodedig **anabledd**.

Rydym yn addo gweithio **ar y cyd** i wella cymorth a seibiant i ofalwyr (o bob oed), a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyfrannu at ddarparu gwasanaeth gofal cenedlaethol o ansawdd uchel. Trwy **gyfranogi**, rydym am i gyfleusterau chwaraeon lleol ddod â phobl ynghyd, ac rydym am sicrhau mynediad at y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir trwy ein Un Pwynt Mynediad, Llywiwr Cymunedol a Gwasanaethau Llyfrgell.

Bydd ein haddewidion i barhau i weithio tuag at ddod yn Sefydliad sy'n Deall Dementia, ac i annog cymunedau i fod yn gyfeillgar i oed, yn pontio'r cenedlaethau ac yn gynhwysol, gan leihau arwahanrwydd ac unigrwydd, o fudd i nodweddion gwarchodedig **oedran, hil ac anabledd**.

Nid oes unrhyw ddarnau penodol o waith a fydd o fudd uniongyrchol i **ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol**, er y dylai ein holl waith fod o fudd i bobl â'r holl **nodweddion gwarchodedig**.

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Ymwelodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru â Grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych mewn digwyddiad ym mis Hydref ar gyfer sefydliadau yng Nghonwy a Sir Ddinbych sy'n cefnogi pobl hŷn i gael mynediad at gymorth yn agos i'w cartrefi.

Ym mis Rhagfyr, ystyriodd a derbyniodd y Cabinet argymhellion adroddiad cyfrinachol ar argymhellion Grŵp Ffioedd Rhanbarthol Gogledd Cymru mewn perthynas â ffioedd Cartrefi Preswyl a Nyrsio ar gyfer 2023 i 2024. Bydd yr eitem hon yn cael ei thrafod ymhellach yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Ionawr 2023.

Cynhaliwyd Wythnos Genedlaethol Diogelu rhwng 14 a 18 Tachwedd, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Dywedodd y cyngor fod diogelu yn fusnes i bawb, ac anogodd gymryd rhan mewn gweithdai, digwyddiadau a sgyrsiau lleol a gynhaliwyd yn bersonol ac ar-lein.

Wrth weithio i gadw'r cyhoedd yn ddiogel, anogodd y cyngor bobl i gymryd rhagofalon diogel ychwanegol ar gyfer Noson Tân Gwyllt a Chalan Gaeaf. Cynigiodd y cyngor gyngor hefyd ar ffliw adar tymhorol i berchnogion dofednod ac adar hela a'r gofynion cadw gorfodol newydd a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2022 ar gyfer dofednod ac adar caeth yng Nghymru.

Ym mis Tachwedd, sicrhawyd bod dros £100,000 o arian drwy Symiau Gohiriedig – taliadau gan ddatblygwyr pan nad yw'n briodol darparu'r man agored awyr agored gofynnol yn ystod datblygiad – ar gael i wella mannau agored a mannau chwarae ledled y sir.

Cyfarfu'r Cyngor ym mis Hydref 2022 i drafod Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gogledd Cymru, sef asesiad ar y cyd o ddigonolrwydd a chynaliadwyedd y farchnad gofal cymdeithasol gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Bydd yr adroddiad yn cynorthwyo'r rhanbarth i gomisiynu a chefnogi darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithiol i ateb y galw gan y boblogaeth.

Cyfarfu'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Rhagfyr 2022 i dderbyn cyflwyniad gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru am amseroedd ymateb ambiwlansys a galwadau allan yn Sir Ddinbych.

Cafwyd prynhawn crefft Nadoligaidd yng nghartref preswyl Cysgod y Gaer yng Nghorwen. Roedd y sesiwn ar gyfer preswylwyr a staff ac fe'i hwyluswyd gan dîm Natur er budd

Iechyd, sy’n brosiect ar y cyd rhwng Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych a Gwasanaeth Tai Sir Ddinbych.

## Sir Ddinbych sydd yn dysgu a thyfu

Mae’r thema hon yn cymhwyso’r pum ffordd o weithio ac yn cefnogi’n uniongyrchol Nodau Llesiant Cymru o amgylch **ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant a diwylliant bywiog gyda’r Gymraeg yn ffynnu**. Yn anuniongyrchol, gall y thema hon hefyd gefnogi nodau cenedlaethol ynghylch **cyfrifoldeb byd-eang** a **gwydnwch amgylcheddol**, gan addysgu ein pobl ifanc am sut i wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang, yn ogystal â sut i gynnal a gwella ein hamgylchedd naturiol a’i ecosystemau.

Mae’r thema hon yn ceisio cymryd agwedd **ataliol**, yn enwedig o ran y blynyddoedd cynnar ac addysg rhieni, gan sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Yn ogystal â gweithio gydag ysgolion, colegau a phrifysgolion, byddwn yn **cydweithio** â phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a’r sector  busnes i **integreiddio** ein huchelgeisiau ar y cyd ar gyfer llesiant a chyflawniad **hirdymor** ein trigolion, gan gefnogi economi ffyniannus sy’n lleddfu tlodi. Ar bob cam o fywyd, byddwn yn sicrhau bod pobl yn **cymryd rhan** ac yn ymgysylltu mewn dewisiadau addysg sy'n diwallu eu hanghenion.

Yn ogystal â chefnogi nodwedd warchodedig **oedran**, o ddatblygiad blynyddoedd cynnar i gyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli ôl-16, mae'r thema hon hefyd yn cefnogi'r rhai ag **anableddau** yn uniongyrchol. Yn benodol, ein haddewid i gefnogi ysgolion i gyflwyno’r cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd addewidion eraill hefyd yn darparu buddion i'r grŵp hwn, megis darparu adeiladau o ansawdd uchel sy'n addas i'r diben; gwaith ein gwasanaeth Cyfleoedd Gwaith i rai ag anableddau cymhleth; a'n cynnig i wirfoddolwyr Ar Ymyl Gofal. Trwy ein gwaith i gefnogi rhieni hefyd, rydym hefyd yn cefnogi nodwedd warchodedig **beichiogrwydd a mamolaeth**, wrth i ni geisio gwella'r cymorth a'r cyngor da yr ydym eisoes yn eu darparu i rieni. Bydd ein gwaith i ddileu rhwystrau i ddysgu a sicrhau bod pobl yn wydn, yn barod ar gyfer cyflogaeth, addysg bellach neu hyfforddiant hefyd o fudd i'r rhai sydd dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**.

Nid yw'r thema hon yn ceisio bod o fudd uniongyrchol i nodweddion gwarchodedig **ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; hil; crefydd a chred; a rhyw**. Fodd bynnag, gan integreiddio â'n thema ar gyfer Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal, dylai

ein lleoliadau addysg hefyd fod yn amgylcheddau diogel nad ydynt yn rhagfarnu yn erbyn y rhai â nodweddion gwarchodedig.

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Wedi'i ariannu drwy Warant Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd ffair swyddi Sir Ddinbych yn Gweithio yn Neuadd y Dref y Rhyl ym mis Tachwedd. Mynychwyd y ffair gan bron i 100 o drigolion ifanc 16 oed a hŷn, ac roedd yn cynnwys amrywiaeth o gyflogwyr, darparwyr hyfforddiant neu addysg a gwasanaethau cymorth.

Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar yr estyniad i'r cyfleuster gofal plant yn Ysgol Penmorfa, Prestatyn, a ariennir drwy Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru.

Cafodd gwirfoddolwr o Lanarmon-yn-Iâl y wobr flynyddol yn cydnabod gwirfoddolwyr gan Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, i gydnabod y gwaith a'r gefnogaeth y mae wedi'i rhoi i'w chymuned a'r AHNE.

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, adolygodd y Cabinet ganfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar drefniadaeth Ysgol Plas Brondyffryn a chymeradwyo cyhoeddi'r hysbysiad statudol i gynyddu capasiti'r ysgol o 116 i 220 o Ebrill 2025, yn amodol ar gymeradwyo safle, caniatâd cynllunio a chyllid.

Ym mis Hydref, er gwybodaeth, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad diweddar Estyn ar Ysgol Gatholig Crist y Gair, a roddodd yr ysgol dan fesurau arbennig. Rhoddwyd sicrwydd bod Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda GwE, y Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, a'r ysgol i fynd i'r afael â'r argymhellion mwyaf uniongyrchol ynghylch diogelu ac arweinyddiaeth. Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad, gan gynnwys cynllun gweithredu'r ysgol ac ymateb y cyngor.

## Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well

Mae'r thema hon yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio ac yn cefnogi'n uniongyrchol Nodau Llesiant Cymru o amgylch **ffyniant, gwytnwch amgylcheddol, iechyd, cydlyniant a diwylliant bywiog gyda'r Gymraeg yn ffynnu**.  Rydym am i gymunedau yn Sir Ddinbych fod yn ffyniannus, cydlynus ac wedi'u cysylltu'n dda. Mae ein haddewidion yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio i gefnogi ein nod o gael seilwaith ffyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth da, gwell cysylltedd digidol, a seilwaith cymdeithasol i gefnogi llesiant personol a chymunedol.

Yn benodol, byddwn yn cynnal rhwydwaith ffyrdd o ansawdd gan gynnwys darparu £20m mewn prosiectau ail-wynebu erbyn 2027 a thrwy **gydweithio** â Llywodraeth Cymru i adnewyddu Pont Llannerch. Byddwn hefyd yn cydweithio i gyflwyno gwelliannau i drafnidiaeth a theithio, gan gynnwys gwneud teithio o fewn ein sir yn 'wyrddach'.

Bydd addewidion eraill i gefnogi cymunedau gyda gwell rhwydweithiau digidol a sgiliau, a hyrwyddo lles personol a chymunedol trwy wirfoddoli a chefnogi grwpiau cymunedol yn hybu **cyfranogiad** mewn cymunedau lleol ac mewn gwneud penderfyniadau.

Bydd yr holl waith hwn yn cyfrannu at gefnogi pobl â'r holl **nodweddion gwarchodedig**, yn enwedig **oedran** ac **anabledd**, a bydd o fudd i'r rhai sydd dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**.

### Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Digwyddodd gwaith ail-wynebu hanfodol ar yr A547 Ffordd Gronant, Prestatyn ddiwedd mis Hydref 2022.

Bu'r Cabinet yn ystyried y Cynllun Trafnidiaeth Gynaliadwy Drafft ym mis Tachwedd, cyn yr ymgysylltiad cyhoeddus sydd i ddod ar y Cynllun yn gynnar yn 2023.

Ym mis Hydref, dechreuodd y gwaith o osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus ledled y sir. Ym mis Tachwedd, fel rhan o Wythnos Hinsawdd Cymru, bu ein bws trydan yn Rhuthun - y bws mini 16-sedd cyntaf erioed â sero allyriadau wedi'i bweru gan fatri - yn

rhan o sgwrs i arddangos sut y gall pŵer trydan ddarparu cyfleoedd cludiant cyhoeddus gwyrdd. Ym mis Rhagfyr, aeth canolbwynt gwefru cerbydau aml-drydan, sef y canolbwynt gwefru mwyaf yng Nghymru, yn fyw yn y Rhyl.

Gan gofio'r nosweithiau tywyll a'r boreau cynnar i ddefnyddwyr y ffordd a cherddwyr, anogodd y cyngor bobl i fod yn ddiogel ac i gael eu gweld ar y ffordd yn ystod y gaeaf.

Ym mis Tachwedd, cynhaliom ymgynghoriad ar dabl prisiau diwygiedig newydd ar gyfer Cerbydau Hacni a drwyddedir gan y cyngor. Roedd y newidiadau arfaethedig yn dilyn argymhelliad i'w hadolygu gan y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Mai 2022.

Drwy gydol mis Rhagfyr 2022 ac i mewn i Ionawr 2023 buom mewn partneriaeth â Sustrans i roi cyfle i staff brofi galluoedd E-Feic am wythnos. Rhoddodd hyn gyfle iddynt gymharu'r defnydd o E-Feic ar gyfer cymudo a theithiau eraill yn erbyn eu cerbyd arferol i weld a allent dorri i lawr ar eu defnydd o ynni tanwydd ffosil.

Rhoddodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ystyriaeth i adroddiad ym mis Rhagfyr ynghylch cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya ar rwydwaith ffyrdd y sir. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o'r tasgau y mae'n ofynnol i'r cyngor eu cyflawni wrth baratoi ar gyfer pan ddaw'r terfyn 20 mya diofyn mewn trefi a phentrefi i rym ledled Cymru ar 17 Medi, 2023. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n fuddiol trafod cyflwyno'r terfynau cyflymder 20mya ym mhob Grŵp Ardal Aelodau (MAG) er mwyn caniatáu i aelodau drafod y mater ar lefel leol.

Ym mis Tachwedd, enwebwyd tîm Goleuadau Stryd y cyngor yng ngwobrau rhwydweithiau perfformiad y Gymdeithas Rhagoriaeth Gwasanaethau Cyhoeddus. Cawsant eu rhoi ar y rhestr fer yn rownd derfynol y Perfformiwr Gorau yn eu categori ac ar gyfer y Perfformiwr sydd wedi Gwella Fwyaf.

Ym mis Tachwedd, fe wnaethom atgoffa trigolion o'r gefnogaeth sydd ar gael gan Swyddog Digidol Sir Ddinbych ar sut i wella cyflymder cysylltu.

Cyflwynodd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd) adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau am weledigaeth CGGSDd a'i berthynas gyda'r cyngor a sefydliadau gwirfoddol ar draws Sir Ddinbych. Roedd pwyslais arbennig ar heriau'r pandemig Covid-19 ac, ers hynny, ar gostau byw.

## Sir Ddinbych mwy gwyrdd

Mae’r thema hon yn cofleidio’r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cymhwyso’r pum ffordd o weithio sy’n  cefnogi’n uniongyrchol Nodau Llesiant Cymru o amgylch **gwytnwch, ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, cyfrifoldeb byd-eang, a diwylliant bywiog gyda’r Gymraeg yn ffynnu**. Rydym yn anelu at fod yn sefydliad Di-garbon Net erbyn 2030, a chyfoethogi, cynnal a gwella ein hasedau naturiol i gefnogi bioamrywiaeth. Rhaid inni hefyd liniaru a gweithio gyda chymunedau i ymdopi ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae gennym Raglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol 2021 i 2030 i gyflawni ein Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol gyda gweithgareddau sy’n cymhwyso’r pum ffordd o weithio ar gyfer newid cadarnhaol i genedlaethau’r presennol a’r dyfodol yn yr **hirdymor**.

Nod addewidion i wella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff drwy weithredu gwasanaeth gwastraff newydd a lleihau’r defnydd o blastig untro mewn ysgolion yw cefnogi ein hymdrechion ehangach i **atal** newid yn yr hinsawdd rhag gwaethygu. I gydnabod bod effeithiau newid hinsawdd eisoes yn dod i'r amlwg, rydym am **gynnwys** pobl yn ein hymdrechion i gefnogi cymunedau i liniaru ac ymdopi ag effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu cyfleoedd tyfu bwyd yn y gymuned; darparu cynlluniau i leihau perygl llifogydd arfordirol a mewndirol; ac annog rheoli rhostiroedd i leihau'r risg o danau gwyllt, gan weithio gyda thirfeddianwyr, ffermwyr, cymunedau a chyrff statudol.

Bydd yr holl waith hwn yn cyfrannu at gefnogi pobl â'r holl **nodweddion gwarchodedig**, a bydd o fudd i'r rhai sydd dan **anfantais economaidd-gymdeithasol**.

### Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a’r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi’r thema hon:

Cyflwynwyd prosiect adnewyddu ynni gwyrdd mawr - y mwyaf y mae'r cyngor wedi'i wneud hyd yn hyn - i leihau allyriadau carbon yn Theatr y Pafiliwn yn y Rhyl mewn partneriaeth â Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig ym mis Tachwedd.

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad ym mis Hydref ynghylch y posibilrwydd o gael system wresogi ardal ar gyfer pentref Betws Gwerfil Goch, gan gynnwys darparu pympiau gwres o'r ddaear i anheddau'r cyngor a thai preifat.

Cymeradwywyd cynllun newydd o wneud penderfyniadau dirprwyedig ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol neu lesddaliad) at ddibenion atafaelu carbon a gwella ecolegol gan y Cabinet ym mis Hydref 2022.

Cytunodd y Cabinet, ym mis Hydref, bod dau gynllun amddiffyn yr arfordir posibl ar gyfer Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor gydag argymhelliad i ariannu cyfnod adeiladu'r ddau gynllun.  Ym mis Tachwedd, ystyriodd y Cabinet gostau prosiect ar gyfer y ddau gynllun ac ym mis Rhagfyr, cefnogodd y Cyngor y prosiectau i'w symud ymlaen i'r cyfnod adeiladu, gan ddefnyddio'r model cyllid cymorth grant a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.  Mae hyn yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Achosion Busnes Llawn a chytuno i ddarparu 85% o'r gost fenthyca i ariannu'r cynllun.

Ers mis Hydref 2022, mae ein Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt yn cynnwys dros 100 o safleoedd a gaiff eu rheoli ar gyfer dolydd blodau gwyllt (gan gynnwys yr 11 gwarchodfa natur ar ymylon ffyrdd). Mae'r safleoedd hyn yn gyfystyr â 35 o gaeau pêl-droed a reolir fel dolydd blodau gwyllt brodorol. Mae'r dolydd blodau gwyllt hyn yn arddangos ein cynllun rheoli glaswellt arloesol a sut mae ein hymdrechion yn hybu amddiffyniad blodau gwyllt ar draws Sir Ddinbych, gan gynnwys cynyddu bioamrywiaeth dolydd blodau gwyllt mewn ysgolion.  Rydym hefyd wedi bod yn defnyddio Meithrinfa Goed y sir i dyfu mwy o flodau gwyllt ar gyfer ein safleoedd, gyda'n cnwd cyntaf wedi'i blannu ym mis Tachwedd. Mae'r fenter hon hefyd wedi arwain at ddolydd blodau gwyllt arfordirol yn dod yn gartref bioamrywiol i rywogaethau planhigion prin.

Yn ystod y gaeaf dechreuodd y gwaith ar dir sy'n eiddo i'r cyngor i dorri neu leihau coed ynn.

Ym mis Tachwedd 2022, lansiwyd safle gwarchodfa natur Maes Gwilym, y Rhyl yn swyddogol, lle plannodd gwirfoddolwyr, staff y cyngor ac aelodau lleol 2,500 o goed ar y safle, yn ogystal â gwella'r coetir. Fe ddechreuon ni hefyd gyflwyno'r prosiect plannu coed ysgol gyda thua 9,000 o goed yn cael eu dosbarthu ar draws ysgolion ledled y sir fel rhan o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â newidiadau ecolegol ac yn yr hinsawdd. Rhwng

Tachwedd 7 a Thachwedd 21, fel rhan o'n gwaith creu coetir newydd, cynhaliom arolwg yn ceisio barn trigolion ynghylch creu safleoedd newydd yn Sir Ddinbych.

Yn ystod Hydref a Thachwedd, cynhaliwyd nifer o ddiwrnodau casglu hadau gyda hadau a mes wedyn yn cael eu tyfu yn ein Meithrinfa Goed. Dechreuodd gwaith pellach i sicrhau dyfodol coeden brin yn Sir Ddinbych, yr Aethnen Ddu, yn y Feithrinfa Goed ym mis Rhagfyr 2022 gyda nifer o goed gwrywaidd a benywaidd yn cael eu clonio gan ddefnyddio toriadau o goeden wreiddiol sydd wedi goroesi. Fe wnaethom hefyd lansio'n swyddogol y safle coetir sydd newydd ei sefydlu ar dir hen gae'r ysgol gynradd yn Stryd Llanrhydd, Rhuthun ym mis Rhagfyr, a chychwyn ar yr ail gam o reoli coetir ym Mhontcysyllte. Cafodd gwirfoddolwyr sy'n cefnogi'r mentrau hyn eu cydnabod a'u llongyfarch ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Gwirfoddolwyr ym mis Rhagfyr 2022.

Er mwyn ein helpu i gatalogio effaith barhaus newid yn yr hinsawdd ar draws y rhanbarth, fe wnaethom lansio prosiect retro arloesol newydd ym mis Hydref, i annog pobl i dynnu lluniau mewn tri lleoliad gwych gan ddefnyddio camerâu arddull hanesyddol.

Ym mis Tachwedd, flwyddyn ar ôl Cynhadledd y Pleidiau ar y Newid yn yr Hinsawdd (COP26) a gynhaliwyd yn Glasgow, fe wnaethom amlygu bod gennym ar hyn o bryd 31 o gerbydau fflyd trydan a ddefnyddir ar draws gwasanaethau lluosog, ar ôl clocio 142,377 milltir o deithio gwyrdd.

Fe wnaethom gyhoeddi enwau'r ysgolion buddugol o'n cardiau post o gystadleuaeth y dyfodol ym mis Rhagfyr. Gofynnwyd i ddisgyblion ddychmygu ein bod yn y flwyddyn 2050 ac i anfon cerdyn post yn ôl at eu hunain pan oeddent yn iau i egluro sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar eu bywydau.

Cynhaliodd tîm Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ddigwyddiad yn Llangollen i godi ymwybyddiaeth o'r angen am gynefinoedd yn y sir gyda ffocws ar ddraenogod.

Ar ddiwedd mis Tachwedd, fe wnaethom lansio canllaw A i Y Ailgylchu i helpu pobl i ailgylchu cymaint ag y gallant a chael gwared ar eu gwastraff yn ddiogel.

## Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal

Mae'r thema hon yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio ac yn cefnogi'n uniongyrchol Nodau Llesiant Cymru o amgylch **ffyniant, iechyd, cydraddoldeb, cydlyniant, diwylliant bywiog gyda'r Gymraeg yn ffynnu** a **chyfrifoldeb byd-eang**. Mynd i'r afael â'r amddifadedd y mae ein cymunedau yn ei wynebu, lleihau anghydraddoldeb, a hyrwyddo amrywiaeth a chydlyniant cymunedol.

Bydd ein haddewidion i leihau cam-drin domestig, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, hyrwyddo dim hiliaeth a gweithredu yn erbyn troseddau casineb, o fudd i bobl â nodweddion gwarchodedig **oedran, anabledd, hil neu gyfeiriadedd rhywiol**. Mae ein cyfranogiad yn Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth pellach i bobl â **nodweddion gwarchodedig hil, crefydd neu gred**. Byddwn yn **cynnwys** ac yn sicrhau bod profiadau pobl o gefndiroedd amrywiol, grwpiau nas clywir yn aml, a'r rhai sydd dan **anfantais economaidd-gymdeithasol** yn cael eu clywed ac yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau, ac rydym am wella llesiant plant o deuluoedd incwm isel a difreintiedig, gan gynnwys i leihau'r bwlch cyrhaeddiad.

Addewid sylweddol o fewn y thema hon yw lleddfu tlodi drwy ehangu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, drwy **gydweithio** â Llywodraeth Cymru; datblygu strategaeth gwastraff bwyd ar gyfer y sir gyda'n partneriaid; gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r rhai sydd mewn perygl o dlodi tanwydd; a thrwy ysgogi a chefnogi grwpiau cymunedol i helpu unigolion gyda phwysau costau byw. At hynny, byddwn yn annog cyfranogiad eang mewn gwasanaethau a ddarperir gan y sectorau llyfrgelloedd, y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, a byddwn yn parhau i gefnogi ac adsefydlu ffoaduriaid trwy Gynllun Ailsefydlu Byd-eang y DU, i gefnogi datganiad Cymru i fod yn Genedl Noddfa.

Bydd y thema hon yn cyfrannu at gefnogi pobl â'r holl **nodweddion gwarchodedig**, er na nodir unrhyw waith penodol fel un sy'n cefnogi'n uniongyrchol **ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth neu ryw**.

### Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Daeth dros 100 o bobl o nifer o sefydliadau at ei gilydd mewn Uwchgynhadledd Costau Byw a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref y Rhyl ym mis Hydref. Trefnwyd hyn gan Gyngor Sir Ddinbych a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, ac arweiniodd at Sioe Deithiol Costau Byw i'r cyhoedd.

Yn ystod mis Hydref 2022, yn dilyn pryderon nad oedd hyd at 4,000 o drigolion wedi gwneud cais am eu taliad Cost Byw o £150 eto, ymgymerodd y cyngor â gwaith ychwanegol gyda Swyddfa'r Post i annog preswylwyr cymwys i wneud cais am eu hawliadau. Bu'r cyngor hefyd yn gweithio gyda Swyddfa'r Post i gyhoeddi talebau 'Talu Allan' gwerth £200 ar gyfer y Cynllun Tanwydd y Gaeaf.

Dechreuodd disgyblion derbyn yn ysgolion Sir Ddinbych gael prydau ysgol am ddim i bawb ym mis Medi 2022. Mae cam nesaf y gwaith, i gynyddu capasiti ceginau ysgolion cynradd i ddarparu prydau ysgol am ddim i Flwyddyn 1 a 2 erbyn Pasg 2023, wedi'i ddwyn ymlaen a bydd y cyngor yn cynnig hyn o fis Ionawr 2023. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sicrhau bod cyllid ar gael i wneud taliadau prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys yn ystod gwyliau ysgol. Dosbarthwyd gwybodaeth gan y cyngor i rieni a gwarcheidwaid a dechreuodd y cynllun o hanner tymor mis Hydref.

Ledled y sir, sefydlwyd canolfannau clyd – o dan fenter Croeso Cynnes / Warm Welcome – fel mannau diogel i bobl fynd i gadw'n gynnes yn eu cymuned leol. Mae'r canolfannau'n cynnig lluniaeth a rhywle i ymlacio, hyd at brydau poeth, cyngor a gwybodaeth ar arbed ynni a chadw'n gynnes, help i gynyddu cynhwysiant digidol a gweithgareddau cymdeithasol.

Dyfarnwyd 'Rhagoriaeth wrth Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' i'r cyngor, mewn partneriaeth â Llamau a Viva, gan y Sefydliad Tai Siartredig yng Ngwobrau Tai Cymru 2022. Roedd y wobr ar gyfer Tŷ Pride o'r Rhyl, prosiect a gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r heriau penodol a wynebir gan bobl ifanc LHDTC+ sy'n profi digartrefedd oherwydd eu hunaniaeth.

Dyfarnwyd hefyd Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r Cyngor. Roedd y cyngor yn un o 12 o gyflogwyr Cymreig ymhlith 156 o sefydliadau cenedlaethol a gafodd wobr.

Cyrhaeddodd Tîm Gwasanaeth Arlwyo'r cyngor restr fer rownd derfynol gwobr y Perfformiwr Gorau gan y Gymdeithas er Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Tachwedd.

Hyrwyddodd y cyngor Wythnos Safonau Masnach Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o waith a wneir gan swyddogion Safonau Masnach yn lleol ac ar draws Cymru. Ym mis Tachwedd, cefnogodd y cyngor a Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig Ddiwrnod y Rhuban Gwyn, y Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Trais yn erbyn Merched, trwy oleuo ei adeiladau i gefnogi'r ymgyrch genedlaethol.

Yn y cyfnod cyn y Nadolig, cynghorodd y cyngor bobl i fod yn wyliadwrus o sgamiau wrth wneud eu siopa ar-lein. Cafodd ymgyrch dymhorol arall - yr Ymgyrch Atal Yfed a Gyrru ar Gyffuriau dros y Nadolig - gefnogaeth hefyd gan y cyngor.

Cyfarfu Pwyllgor Craffu Partneriaethau’r Cyngor ym mis Rhagfyr i ystyried cyflawniadau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych a’i flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae'r thema hon yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio ac yn cefnogi'n uniongyrchol Nodau Llesiant Cymru o amgylch **ffyniant, gwytnwch amgylcheddol, iechyd, cydlyniant a diwylliant bywiog gyda'r Gymraeg yn ffynnu**. Rydym am i Sir Ddinbych fod yn sir lle mae'r Gymraeg yn iaith byw a ffyniannus. Rydym am i Sir Ddinbych wneud y mwyaf o'r cyfoeth o dreftadaeth ddiwylliannol ac asedau naturiol er mwyn cefnogi ffyniant economaidd, datblygu sgiliau a chydlyniant cymunedol.

Mae ein haddewid i chwarae ein rhan i sicrhau miliwn o Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 yn cynnwys cyflwyno strategaethau a pholisïau a fydd yn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn naturiol, ac ar bob cam o'u bywyd. Bydd hyn o fudd i nodweddion gwarchodedig **oedran** a **beichiogrwydd a mamolaeth**, trwy waith i gefnogi plant a theuluoedd yn ystod eu blynyddoedd cynnar i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn addo **cydweithio** i gefnogi defnydd ehangach o'r Gymraeg a dathlu diwylliant Cymreig yn y gymuned, gan gynnwys lleoliadau gweithle. O ran y cyngor ei hun, rydym yn addo adeiladu diwylliant ac ethos sy'n annog defnydd dyddiol o'r Gymraeg gan aelodau etholedig a staff y cyngor.

Byddwn yn parhau i **gydweithio** i ddarparu gwasanaeth archifau gwell a chynaliadwy ar gyfer Gogledd Cymru. Gallai datblygu strategaeth ddiwylliannol i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth gyfoethog Sir Ddinbych fod o fudd i bobl â'r holl **nodweddion gwarchodedig**, ac mae ganddi ryngddibyniaethau ac mae'n **integreiddio** â llawer o themâu eraill yn y Cynllun Corfforaethol.

### Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Bob blwyddyn, mae Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y cyngor yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio ar llywodraethu gwybodaeth y cyngor. Yn yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2022, adroddwyd yn ystod y flwyddyn Ebrill 2021 i Fawrth 2022, bod un gŵyn wedi'i gwneud i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch oedi wrth ymdrin â chais Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR) yn y Gymraeg. Ymatebodd y cyngor fod y cais wedi'i ohirio'n bennaf oherwydd absenoldeb staff, ond

hefyd yn rhannol oherwydd deddfwriaeth RhGA ei hun a nifer y cofnodion i'w datgelu. Felly, er bod y cais wedi'i ohirio, nid oedd yr oedi oherwydd mai drwy gyfrwng y Gymraeg y gwnaed y cais.

Dechreuodd prosiect adfer ac ymgysylltu cymunedol newydd ym mis Hydref ym Maddonau Rhufeinig Prestatyn. Wedi'i ariannu gan Cadw a Chronfa Datblygu Cynaliadwy'r AHNE, nod y prosiect yw cynyddu nifer yr ymwelwyr a diogelu'r safle am genedlaethau i ddod.

Mewn ymdrech i annog mwy o bobl i ymweld â'u llyfrgell leol, ac mewn ymdrech i ddileu rhwystrau i bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, mae Llyfrgelloedd Sir Ddinbych wedi cael gwared ar ddirwyon llyfrau llyfrgell traddodiadol. Drwy gydol mis Tachwedd, cynhaliodd Llyfrgelloedd Sir Ddinbych Ŵyl Ffuglen, sef cyfres o ddigwyddiadau i gefnogi pobl i gysylltu, rhoi cynnig ar rywbeth gwahanol neu ddysgu sgil newydd. Ym mis Rhagfyr, fe wnaeth y cyngor atgoffa trigolion am y gwasanaeth llyfrgell cartref, gwasanaeth  ar gyfer pobl sy'n methu cyrraedd y llyfrgell oherwydd afiechyd, anabledd, neu gyfrifoldebau gofalu.

Cloddiwyd tua 35 tunnell o ddeunydd o borthdy Castell Dinas Brân, fel rhan o'r gwaith adfer cyffrous sy'n digwydd yn y castell. Cafodd y deunydd a gloddiwyd ei gludo mewn hofrennydd i'w ddefnyddio ar un o'r llwybrau allweddol sy'n ymdroelli i'r copa er mwyn gwella mynediad tra'n diogelu'r cynefin glaswelltir bregus.

Rhoddwyd gwobr fawreddog Awyr Dywyll i'r Swyddog Prosiect Nos am ei gwaith i leihau llygredd golau.

Cynhaliodd y cyngor ei wasanaeth carolau blynyddol 'Dathliad Nadolig' yn Eglwys y Santes Fair, Rhuddlan. Roedd yn gyfle i bobl ddangos eu doniau cerddorol a chasglwyd rhodd i gefnogi Elusennau Cadeirydd y Cyngor, sef Achub y Plant (NSPCC) ac elusennau dementia yn Sir Ddinbych.

## Iechyd Corfforaethol: Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella

Llywodraethu: Da

Teitl y bennod hon mewn adroddiadau blaenorol oedd "Iechyd Corfforaethol: Mae'r Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy". O dan ein Cynllun Corfforaethol newydd, mae'r thema Iechyd Corfforaethol yn parhau, ond fel "Iechyd Corfforaethol: Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda".

Mae'r thema hon yn sail i ddull y cyngor o wreiddio a chryfhau ein dyletswyddau o dan ystod o ddeddfwriaeth allweddol. Er enghraifft, o ran sicrhau ein bod yn arfer ein saith swyddogaeth llywodraethu craidd yn effeithiol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Deddf Cydraddoldeb 2010 a thrwy gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Disgwyliwn i hon fod yn rhan sylweddol o adroddiadau yn y dyfodol oherwydd nid yn unig maint yr ymrwymiadau newydd yn ein Cynllun Corfforaethol newydd, ond hefyd oherwydd y gofynion deddfwriaethol y disgwylir i ni eu bodloni i fonitro ein cynnydd yn erbyn swyddogaethau allweddol y cyngor (h.y. y saith maes llywodraethu yn yr achos hwn).

Mae'r thema hon, mewn gwirionedd y Cynllun Corfforaethol cyfan newydd, yn cymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy, fel y'i nodir yn y Ddeddf Llesiant, yn y ffyrdd a ganlyn. Rydym wedi defnyddio ein Hasesiad Lleol o Les i ddadansoddi a deall y tueddiadau **hirdymor** (bygythiadau, gwendidau, cyfleoedd a chryfderau), i nodi'r naw thema yn y Cynllun Corfforaethol newydd. Rydym wedi ymrwymo i 'fod yn agos at ein cymuned', sy'n golygu ein bod am **gynnwys** a **chydweithio** â'n cymunedau ar y materion sy'n peri'r pryder mwyaf iddynt. Rydym wedi ymrwymo i fod yn dryloyw, yn glir ynghylch ein perfformiad, ac yn ymgorffori diwylliant o welliant parhaus, a ddylai, ochr yn ochr â'n gwerthoedd o onestrwydd, parch, undod a balchder, ein rhoi mewn sefyllfa dda i weithio mewn ffordd **integredig** ochr yn ochr â'n haelodau etholedig, cymunedau a phartneriaid i **atal** problemau rhag gwaethygu, neu rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae'r thema hon yn cefnogi cyflawni pob un o saith Nod Lles Cymru. Mae cyfraniad uniongyrchol i **ffyniant**, **gwydnwch** amgylcheddol, **iechyd**, **cydraddoldeb** (o ran

gweithlu'r cyngor), **diwylliant bywiog gyda'r Gymraeg yn ffynnu** a **chyfrifoldeb byd-eang**. Mae'r thema hon yn cynnwys tri amcan cydraddoldeb penodol:

- Gwella ein gwasanaethau drwy hyrwyddo, ymgysylltiad a chyfathrebu ystyrlon â'r cyhoedd, cynghorau Dinas, Tref a Chymuned, a phartneriaid.
- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi economi sy'n hyrwyddo gwaith teg, cyfiawnder a chaffaeliad cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol, er mwyn cyfoethogi'r gadwyn gyflenwi leol
- Hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth

Fel yr eglurwyd yn yr adran Crynodeb o'r Sefyllfa, ers mis Tachwedd, rydym wedi cynnal trafodaethau i bennu'r set strategol gywir o fesurau a gweithgarwch i'w monitro drwy'r adroddiadau perfformiad hyn yn y dyfodol. Bydd llawer o'r mesurau a rhai o'r gweithgareddau a adroddwyd yn flaenorol o dan Iechyd Corfforaethol yn parhau, ac rydym wedi diweddaru'r cynnydd mewn perthynas â'r rhai isod. Serch hynny, mae llawer o waith i'w wneud eto cyn cyrraedd set derfynol o ddangosyddion sy'n ymgorffori dangosyddion newydd ochr yn ochr â'r rhai a fydd yn parhau.

## Fframwaith Perfformiad Iechyd Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Gwnaethom sylwadau ar benodiadau cyfartal yn ein hunanasesiad ar gyfer 2021 i 2022. O ystyried perfformiad yn y maes hwn, mae'n werth ailadrodd y dadansoddiadau hynny. Mae mesur penodiadau cyfartal yn gymhleth ac yn ystyried y nodweddion a ddiogelir yr ydym eisoes â data ar eu cyfer (yn seiliedig ar yr hyn mae pobl wedi'i ddatgan). Rydym yn ystyried y nodweddion a ddiogelir, Hil, Anabledd, Rhywioldeb ac Ailbennu Rhywedd yn benodol. Yn seiliedig ar y data a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer 2020 - 2021, rydym wedi gweld gostyngiad mewn penodiadau o 15% i 4%. Mae hyn yn cymharu ag 11% wrth edrych ar y rheiny a gafodd eu penodi nad oes ganddynt y nodweddion hyn. Hefyd, er bod ein llinyn mesur ar y gyfradd gymedr fesul awr i ferched wedi dangos bod merched yn cael mwy o gyflog na dynion yn ystod 2019 - 2020 a 2020 - 2021, mae'r gwahaniaeth mewn tâl bellach wedi newid yn ôl i ffafrio dynion o 6.7% yn 2021 - 2022. Merched oedd â 79% o'r swyddi cyflogau isaf y mae'r Cyngor yn eu cynnig (i lawr 0.6% yn unig ar y flwyddyn flaenorol). Byddwn yn cael diweddariadau ar y mesurau hyn yn ein hadroddiad nesaf.

Fel arfer, rydym yn adrodd ar ganran mesurau'r Cynllun Corfforaethol sy'n flaenoriaeth ar gyfer gwella (51% yn ein hadroddiad diwethaf). Fodd bynnag, o ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i bennu'r set strategol gywir o fesurau a gweithgarwch i'w monitro drwy'r adroddiadau perfformiad hyn yn y dyfodol, nid yw'r data hwn yn berthnasol. Mae un prosiect corfforaethol yn cael ei nodi fel ‘wedi’i beryglu’ (prosiect Gofal Plant Dewi Sant), gyda 95% o brosiectau yn cael eu diweddaru’n rheolaidd gan reolwyr prosiect, i lawr 5% o’n hadroddiad diwethaf.

Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Fel adroddwyd eisoes, roedd 55% o’n Risgiau Corfforaethol yn anghyson â’n parodrwydd i dderbyn risg yn ein hadolygiad diwethaf, a gwblhawyd ym mis Tachwedd Awst 2022. Mae uwch reolwyr a’r Cabinet yn mynd i’r afael â’r rhain, ac yn cyfiawnhau eu cynnwys yn ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol fel y risgiau mwyaf difrifol y mae’r Cyngor yn eu hwynebu.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella gan reoleiddwyr allanol (Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru), ac ni chafwyd unrhyw adroddiadau sicrwydd isel yn y cyfnod hwn gan archwilio mewnol. Bydd paratoadau yn mynd rhagddynt yn fuan ar gyfer Adolygiad ar y cyd gan yr Arolygiaeth o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) yn Sir Ddinbych, a fydd yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ac Estyn, ym mis Chwefror, 2023.

Mae ein mesur ar amrywiant y gyllideb (h.y. yr hyn sydd gennym o’i gymharu â’n gwariant) wedi gostwng o £2,661 mil ym mis Medi 2022 i £2,189 mil ym mis Rhagfyr 2022. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn parhau yn £7.135 miliwn.

Mae canran y straeon newyddion negyddol am y Cyngor (fel cyfran o bob stori newyddion am y cyngor) wedi cynyddu ychydig o 11% yn y cyfnod blaenorol i 12% rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr. Mae hyn yn cynrychioli 15 stori negyddol allan o gyfanswm o 128. Mae canran y cwynion allanol a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf wedi gostwng o 67% i 53%. Mae hyn yn cynrychioli 28 o gwynion wedi’u cadarnhau neu wedi’u cadarnhau’n rhannol.

Ym mis Rhagfyr 2022, roedd absenoldeb salwch yn sefyll ar 9.8 diwrnod, i lawr o 10 yn y cyfnod diwethaf. Mae hyn yn cymharu â 9.03 diwrnod ym mis Rhagfyr 2021. Ym mis Rhagfyr 2022, roedd canran y staff sydd wedi cael o leiaf 3 cyfarfod un i un yn y 12 mis

diwethaf yn 53%, i fyny o 52% yn y cyfnod diwethaf. Yn ystod y cyfnod, gwnaethom egluro bod y dangosydd hwn yn dal yr holl staff sy'n gymwys ar gyfer cyfarfodydd un i un, ac yn mesur y ganran o 121 sydd wedi digwydd, fesul person (nid rôl), ac yn dal pawb sy'n gymwys ar gyfer un neu dri chyfarfod un i un. Mae hwn yn gyfanswm treigl.

Erbyn diwedd Rhagfyr, roedd 35% o wariant y Cyngor gyda chyflenwyr lleol a 64% o gontractau (dros £25,000 ac yn llai na £1,000) yn ystod y cyfnod yn cynnwys manteision cymunedol (7 o 11 contract). Dyfarnwyd un gweithgaredd caffael cydweithredol yn ystod y cyfnod hwn ac ni fethwyd unrhyw gyfleoedd caffael cydweithredol. Roedd 17 o gaffaeliadau cydweithredol posibl ar y gorwel a bydd y rhain yn datblygu dros y misoedd i ddod.

Mae ein llinyn mesur olaf yn ystyried ymdrechion y Cyngor i gefnogi preswylwyr mewn i waith drwy leoliadau rydym ni'n eu cynnig yn y Cyngor. Yn ystod Hydref i Ragfyr, fe wnaethom lwyddo i gefnogi 8 o leoliadau ychwanegol (cynnydd o 4.9%), gan ddod â'n cyfanswm blynyddol i 171.

## Hunanasesiad Iechyd Corfforaethol: Meysydd Llywodraethu

Mae ein saith maes llywodraethu allweddol yn ein hunanasesiad wedi'u hamlinellu isod ac yn ceisio rhoi darlun o ba mor dda mae'r Cyngor yn perfformio, sut rydym yn gwybod hynny (gan gyfeirio at dystiolaeth lle bo modd), a sut gallwn wella.

## Cynllunio Corfforaethol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

### Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd erbyn mis Hydref 2022

Cymeradwyodd y Cyngor Sir ei Gynllun Corfforaethol newydd ar 11 Hydref, y gellir ei weld rŵan ar ein gwefan yn [www.sirddinbych.gov.uk/cynlluncorfforaethol](www.sirddinbych.gov.uk/cynlluncorfforaethol). Mae'r Cynllun yn amlinellu naw maes gwaith thematig sydd hefyd yn rhan o'n Hamcanion Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'n Hamcanion Cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Rheoliadau (Cymru) dilynol yn 2011. Ers ei gymeradwyo, mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad wedi bod yn gweithio i gysoni swyddogaethau adrodd y cyngor â'r Cynllun newydd, sy'n cynnwys ein trefniadau

llywodraethu a Fframwaith Rheoli Perfformiad diwygiedig a fydd yn cefnogi'r naw thema. Bydd ein cyfarfod Rhaglen cyntaf ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei gynnal gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet ar 17 Mawrth i gytuno ar ein 'dogfen glasbrint' ar gyfer cyflawni'r Cynllun. Gobeithiwn ddechrau adrodd ar berfformiad yn erbyn hyn yn ein Hunanasesiad chwarter 4 / diwedd blwyddyn.

### Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol newydd bellach wedi'i sefydlu, dechreuodd trafodaethau yn yr hydref i benderfynu sut fyddai Cam 2 o'r Ailstrwythuro Uwch Arweinwyr yn edrych. Anfonwyd hysbysiad ffurfiol o gynigion Cam 2 at y rhai yr effeithir arnynt ym mis Rhagfyr ac amlinellwyd dau opsiwn. Bydd yr ymgynghoriad ar yr opsiynau hyn yn dod i ben ym mis Ionawr, ac ar ôl ystyried yr adborth bydd cynnig terfynol yn cael ei gyhoeddi a'i adolygu gan Banel Cydnabyddiaeth Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor. Os bydd unrhyw newidiadau i daliadau, bydd y rhain yn cael eu rhoi i'r Cyngor Sir i'w cymeradwyo.Yn y cyfamser, mae trefniadau dros dro yn eu lle, gyda rheolwyr canol yn dirprwyo ar ran rolau penaethiaid gwasanaeth.

### Penodiadau Pwyllgorau a Chyfarfodydd

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, parhaodd gwaith y Cyngor Sir gyda phenodi amrywiol bwyllgorau a swyddi, gan gynnwys penodi cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd; a phenodi Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Safonau. Agorodd arolwg o gynghorwyr ym mis Rhagfyr hefyd i benderfynu a yw cyfarfodydd a gynhelir yn ystod y dydd yn niweidiol i aelodau sy'n gweithio lle mae cyflogwyr yn amharod i ryddhau staff i fynychu cyfarfodydd. Bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'r Cyngor Sir ym mis Ionawr.

### Cytuno a gweithredu dull cyngor cyfan ar gyfer Ffyrdd Newydd o Weithio

Dosbarthwyd nodyn briffio ym mis Tachwedd a oedd yn amlinellu'r sefyllfa ganlynol o ran staff a gweithio yn y swyddfa / gartref:

- Mae tair brif swyddfa'r Cyngor ar agor i bob aelod o staff (h.y. Neuadd y Sir, Rhuthun; Caledfryn, Dinbych; Tŷ Russell, Y Rhyl).
- Peidio â dweud wrth unrhyw staff bod yn rhaid iddynt weithio o gartref.

- Rydym yn derbyn nad oes gan rhai staff ddewis ond mynychu'r gweithle (e.e. athrawon, llyfrgellwyr ac ati).
- Rydym yn parhau i gefnogi staff i weithio'n hyblyg os gallant h.y. naill ai o gartref, lleoliadau addas eraill, neu unrhyw un o'n swyddfeydd.
- Rhaid i reolwyr sicrhau mai busnes y Cyngor sydd yn dod gyntaf, gan ystyried lles ac iechyd pob aelod unigol o staff.
- Os yw staff yn dymuno gweithio o gartref, a bod hynny yn cefnogi anghenion busnes y Cyngor, yna caiff hynny ei ganiatáu. Bydd rhaid i'r staff yma fynychu'r swyddfa pan fydd angen hynny o ran anghenion busnes y Cyngor (e.e. mae'n rhaid gweithio yn y gweithle neu fynychu cyfarfod wyneb yn wyneb fel rhan o'r swydd).
- Os nad yw staff eisiau gweithio o gartref am ba bynnag reswm (e.e. maent yn teimlo'n unig, cysylltiad gwael â'r we ac ati), yna cânt eu cefnogi i ddod i'r swyddfa.

Yn dilyn arolwg o staff, mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi dod i'r casgliad bod y dull hyblyg hwn yn gweithio'n dda, ond bod angen monitro parhaus. O ran hyn, mae rheolwyr yn gweithio'n agos gyda staff ac Undebau i ddeall sut y gallwn barhau i addasu ein harferion gweithio i wella effeithlonrwydd a pharhau i ddarparu gwasanaethau. Mae adolygiad o'n Polisi Gweithio Hyblyg presennol ar y gweill i helpu i ddarparu arweiniad clir i'r holl staff ar ein ffyrdd newydd o weithio.

Pwysleisiwyd hefyd na ddylai staff sy'n gweithio'n hyblyg fod yn rhwystr i gynghorwyr allu cysylltu â swyddogion. Dylai pob aelod o staff sydd yn gweithio'n hyblyg fod ar gael i gyfarfod neu siarad naill ai dros y we neu wyneb yn wyneb. Gofynnwyd i unrhyw Aelodau sy'n cael anhawster cysylltu â staff roi gwybod i'r Pennaeth Gwasanaeth priodol er mwyn i'r mater gael sylw.

## Ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Un gofyniad sy'n weddill o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yw bod trefniadau yn eu lle ar gyfer 'Asesiad Panel' cyfoedion o'i swyddogaethau, i'w gyflawni unwaith o fewn y tymor etholiadol. Rydym yn eglur iawn bod angen trafod y trefniadau hyn gyda'r aelodau etholedig cyn gynted â phosibl, er mwyn iddynt benderfynu pryd y dylid cynnal yr asesiad yn ystod eu tymor. Ond, rydym yn aros i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddarparu manylion am eu cynnig Asesu Cyfoedion cenedlaethol, gan gynnwys eu costau. Rydym wedi derbyn sicrwydd y byddwn yn derbyn hyn i'w drafod gyda'r aelodau

yn y gwanwyn, gyda'r asesiadau panel cyntaf o awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn ystod yr hydref 2023 ar y cynharaf.

### Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Ymrwymiad i wasanaethau cwsmer

Gydag ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn symud ymlaen, rydym wedi gallu trafod trefniadau ar gyfer y Rhaglen Herio Gwasanaethau yn 2023, gyda chynigion yn cael eu rhannu â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ym mis Rhagfyr. Cynigir yn awr y bydd yr Heriau'n dychwelyd o fis Ebrill, gydag un Gwasanaeth yn mynd drwy'r broses bob mis. Mae'n debygol y bydd y Gwasanaeth yn paratoi dadansoddiad SWOT byr (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) a fydd yn sail i'r drafodaeth, ochr yn ochr â data perfformiad eu Cynllun Busnes Gwasanaeth a Chofrestr Risg Gwasanaeth. Bydd agenda benodol yn canolbwyntio ar gwestiynau am y SWOT a chyflawni amcanion gwasanaeth. Bydd y cynigion yn cael eu trafod eto gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn gynnar ym mis Ionawr i'w cymeradwyo. Byddwn hefyd yn trafod argymhelliad gan Archwilio Cymru ynghylch cyhoeddi Gwybodaeth Lefel Gwasanaeth.

### Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Yn dilyn cyflwyno'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol ym mis Awst 2022, mae Sir Ddinbych wedi treulio'r cyfnod hwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth i ddatblygu'r broses ymgeisio, gyda'r gobaith y gallwn ddechrau gwahodd ceisiadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn amodol ar adborth gan Lywodraeth y DU. Rydym hefyd wedi llwyddo i recriwtio Rheolwr Ariannu Allanol newydd yn ystod y cyfnod hwn i helpu i oruchwylio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn Sir Ddinbych, gan ddechrau yn ei swydd ym mis Ionawr.

## Cynllunio Ariannol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

### Adroddiadau Diweddariadau Cyllid

Yn ei gyfarfodydd ym mis Tachwedd a Rhagfyr, cafodd y Cabinet y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol y cyngor. Y gyllideb refeniw net ar gyfer 2022 - 2023 yw £233.696 miliwn (i fyny o £216.818 miliwn yn 2021 - 2022). Fel y safodd ym mis Rhagfyr, rhagwelwyd mai'r sefyllfa ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol fyddai

gorwariant o £2.189 miliwn (i lawr o £5.535 miliwn yn y mis blaenorol). Adroddodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo ar y camau a gymerwyd i leihau'r gorwariant a ragwelwyd o £5.535 miliwn a adroddwyd ym mis Tachwedd i £2.189 miliwn, ac ategwyd pwysigrwydd y gostyngiad hwn; gan y bydd hyn yn caniatáu tua £2.7 miliwn o'r gronfa lliniaru cyllideb wrth gefn i helpu i ariannu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd £0.754 miliwn wedi'i nodi drwy arbedion gwasanaeth a chwyddiant mewn ffioedd a thaliadau (ni ofynnwyd am arbedion gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol nac ysgolion). Ar ddiwedd mis Tachwedd, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £234.058 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.09%. Roedd y balansau buddsoddi yn £6.3 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 1.86%.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio gostyngiad yn y balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £194 mil, o'i gymharu â £4 mil ar yr adeg y cymeradwywyd y gyllideb. Mae'r symudiad yn ymwneud â gostyngiad yn incwm rhenti amcangyfrifedig. Felly rhagwelir y bydd balansau'r CRT yn £1.863 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Cyllideb Gyfalaf y CRT o £26 miliwn yn cael ei rhannu'n bennaf rhwng gwelliannau y bwriedir eu gwneud i'r stoc dai bresennol (£15 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£11 miliwn).

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o Gynllun cyfalaf y cyngor. Mae'r Cynllun Cyfalaf cymeradwy yn £51.8 miliwn gyda'r gwariant hyd yma'n £17.9 miliwn. Cynyddwyd cronfa wrth gefn y Cynllun Cyfalaf o £1.676 miliwn i £2.176 miliwn (i fyny o'r £0.500 miliwn y cytunwyd arno fis Chwefror) yn sgil cario ymlaen yr elfen heb ei neilltuo'r grant cyfalaf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru fis Mawrth. Ar ôl gwneud dyraniadau i'r Prosiect Gwastraff, bydd y gronfa wrth gefn o £1 miliwn yn helpu i liniaru risgiau i'r rhaglen gyffredinol yn sgil effaith chwyddiant ar gostau cyfalaf.

Mae sefyllfa'r gyllideb ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder, a rhagwelir ar hyn o bryd y bydd gorwariant o £2.423m. Roedd mwyafrif y pwysau (£2.180 miliwn) yn ymwneud â lleoliadau preswyl a maethu annibynnol newydd. Mae'r anawsterau o ran rhagweld gwariant ar gyfer y gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw wedi'i nodi'n drylwyr yn flaenorol. Y rheswm dros orwariant y gwasanaeth Addysg (£243,000) yw pwysau cyllideb incwm lleoliadau y Tu Allan i'r Sir o £742,000 a wrthbwyswyd drwy wneud yn fawr o grantiau ac arbedion effeithlonrwydd ar draws y gwasanaeth. Mae'r gorwariant yn y gyllideb incwm lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn deillio o ostyngiad yn nifer y disgyblion o awdurdodau lleol eraill. Mae'r Gwasanaeth Cefnogaeth

Gymunedol yn parhau i fod yn faes risg uchel, gyda'r sefyllfa derfynol a ragwelir ar hyn o bryd yn £2.287 miliwn oherwydd pwysau cyffredinol o £4.7 miliwn (£2.4 miliwn wedi'i rwydo drwy ddefnyddio cronfa arian parod wrth gefn) o leoliadau cost uchel a'r gwasanaeth digartrefedd.

Yng nghyfarfod mis Hydref, cymeradwyodd y Cabinet gynlluniau i wario grant cyfalaf ysgolion o £1.799 miliwn i wella awyru, cefnogi datgarboneiddio a lleihau ôl-groniad o waith cynnal a chadw mewn ysgolion. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, cymeradwyodd y Cabinet gynlluniau i wario grant cyfalaf o £1.203m i uwchraddio ceginau a chyfleusterau bwyta ysgolion i ddarparu ar gyfer y cynllun Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd.

## Datganiad Cyfrifon

Mae dyletswydd statudol ar y cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â'r safonau cyfrifo a gymeradwyir. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd, esboniodd y Pennaeth Cyllid y rhesymau pam nad oedd y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2021 i 2022 yn cael ei gyflwyno. Nid oedd y Datganiad Cyfrifon cymeradwy mewn sefyllfa i gael ei gyflwyno, yn bennaf oherwydd problem gydag asedau seilwaith a deddfwriaeth newydd. Cadarnhaodd cynrychiolydd Archwilio Cymru a oedd yn bresennol ei fod yn fater cenedlaethol, gyda phryderon tebyg yn cael eu codi gan archwilwyr mewn mannau eraill ynghylch llofnodi cyfrifon heb y ddeddfwriaeth newydd. Y gobaith oedd y byddai'r cyfrifon yn barod i'w cyflwyno ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor.

## Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, nododd y Cabinet berfformiad a chydymffurfiaeth swyddogaeth rheoli trysorlys y cyngor yn yr adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol, sydd hefyd wedi'i dderbyn gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r adroddiad yn amlinellu gweithgareddau buddsoddi a benthyca'r Cyngor am 2021 i 2022, yn darparu manylion ynghylch y sefyllfa economaidd yn ystod y cyfnod hwnnw ac yn dangos sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i Ddangosyddion Darbodus. Pob blwyddyn mae oddeutu £0.5 biliwn yn mynd drwy gyfrifon banc y Cyngor. Mae'r benthyciad sydd gan y Cyngor heb ei dalu ar ddiwedd Mawrth yn £234.7 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.77%. Mae ganddo hefyd £28.7 miliwn mewn buddsoddiadau ar gyfradd gyfartalog o 0.47%.

## Y Diweddaraf am Broses y Gyllideb

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd, rhoddodd y Pennaeth Cyllid ddiweddariad ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol ac Amserlen y Gyllideb. Amlygwyd bod y cyngor yn wynebu cyfnod ansicr a bod y ffigurau a gynhwyswyd yn yr adroddiad diweddaru yn giplun ar adeg ysgrifennu hwn. Cadarnhawyd bod cyfarfodydd cyllideb gwasanaeth wedi dod i ben. Ar 17 Tachwedd, rhyddhawyd Datganiad yr Hydref gan Lywodraeth y DU, gan roi’r gyllideb a ragfynegwyd i’r awdurdod ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Pwysleisiwyd y gwahaniaeth rhwng cyllid disgwyliedig y llywodraeth a chwyddiant a phwysau demograffig. Byddai aelodau’n gallu mynychu gweithdy, a gynlluniwyd ar gyfer mis Ionawr, i gael eu briffio ar gynigion posibl ar gyfer setliad y gyllideb ar gyfer 2023 i 2024 ac ar gyfer 2024 i 2025. Roedd y cynnig wedi cynnwys defnyddio arian wrth gefn yn y flwyddyn 2024 i 2025 i ganiatáu amser i wasanaethau baratoi i ddod o hyd i arbedion.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at ddau senario posibl yn yr adroddiad. Ei farn ef oedd y byddai'r canlyniad tebygol yn unol â'r senario cyntaf, lle byddai'r Grant Cynnal Refeniw yn cael ei gadarnhau yn unol â'r setliad dangosol. Mae lefel y gorwariant yn y flwyddyn ar gyfer 2022 i 2023 yn ffactor cymhlethu a bydd angen ariannu unrhyw orwariant net o gronfeydd arian parod wrth gefn. Dwy gronfa wrth gefn sydd ar gael at ddibenion cefnogi’r gyllideb yw Cronfa Lliniaru’r Gyllideb (a oedd yn sefyll ar £4.85 miliwn), a’r Gronfa Wrth Gefn Heb ei Chlustnodi, y mae polisi mewn grym ar ei chyfer i gadw hyn ar £5 miliwn (er bod y gwerth yn £7.1 miliwn). Adroddwyd y gallai llawer o ffactorau newid yn dibynnu ar ganllawiau a ffigurau gan Lywodraeth Cymru, a phwysleisiwyd y dylai gwaith ddechrau’n fuan i ddod o hyd i arbedion ar gyfer 2024 i 2025. Fel y saif rhagamcanion cyllid ar gyfer 2024 i 2025, byddai lefel bresennol y gwasanaethau yn anghynaladwy.

## Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

### Y Broses Gyfalaf a Dyfodol y Grŵp Buddsoddi Strategol

Mae cael proses gosod cyllideb cyfalaf gadarn er mwyn gosod cyllideb bob blwyddyn yn brif ddyletswydd i’r Cyngor ac mae’n hanfodol er mwyn sicrhau llywodraethu da.

Ym mis Tachwedd, cafodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiweddariad ar y broses gosod cyllideb gyfalaf newydd arfaethedig a’r newidiadau drafft i’r Cylch Gorchwyl ac enw’r Grŵp Buddsoddi Strategol. Roedd y Cabinet yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig. Rheswm

cryf dros newid fu mabwysiadu dull mwy strategol o adolygu bidiau cyfalaf. Roedd y cynnig yn cynnwys creu grŵp newydd o'r enw Grŵp Craffu Cyfalaf. Rôl y grŵp newydd hwn fyddai craffu a mynegi eu barn ond peidio â gwneud penderfyniadau terfynol. Byddai'r penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud gan gyrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau fel y nodir yn y papur. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys manylion y cynnig i gael trefniadau cymeradwyo ar wahân ar gyfer prosiectau a ariennir yn llawn â grant o dan £250 mil.

Croesawodd y Cabinet yr ymgynghoriad a chefnogodd y broses newydd fel ffordd o gryfhau'r prosesau democrataidd a darparu mwy o dryloywder o ran y trefniadau craffu a gwneud penderfyniadau dan sylw. Mae cefnogaeth yr Aelodau a chytundeb y Cabinet ym mis Rhagfyr yn golygu bod angen diwygio'r cyfansoddiad, ac i ganllawiau gael eu cyhoeddi i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae angen gwaith pellach ar fanylion y ffurflenni cais cyfalaf a'r broses. Disgwyliwyd y byddai'r Grŵp Craffu Cyfalaf yn ei le yn gynnar y flwyddyn nesaf gyda gwybodaeth ar gael ar modern.gov o fis Ebrill 2023.

**Gwobrau**

Yng nghynhadledd flynyddol Graddio a Phrisio'r Sefydliad Refeniw ym mis Hydref, enillodd tîm Refeniw Sir Ddinbych Wobr Tîm Refeniw y Flwyddyn. Dywedwyd bod y cyngor, mewn partneriaeth â Civica, wedi darparu gwasanaeth rhagorol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer i drigolion.

## Rheoli Perfformiad

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

### Gweithredu proses flynyddol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar berfformiad y Cyngor.

Lansiwyd ein Harolwg Rhanddeiliaid blynyddol ar 7 Tachwedd, a bydd yn rhedeg tan 19 Mawrth. Mae'n cael ei hyrwyddo drwy ein Llyfrgelloedd a'n derbynfeydd, gyda chopïau papur ar gael yn y lleoliadau hynny. Bydd hefyd yn cael ei hyrwyddo trwy ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol. Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi mewn pryd i'w cynnwys yn ein Hunanasesiad diwedd blwyddyn.

## Darparu Gwelliant Cynaliadwy

Yn dilyn gohirio eu cyfarfod ym mis Medi, trafodwyd adroddiad Archwilio Cymru ar drefniadau rheoli perfformiad y cyngor gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Hydref, ochr yn ochr ag ymateb y rheolwyr. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod Fframwaith Rheoli Perfformiad y cyngor a'r trefniadau ar gyfer mesur ac adrodd ar berfformiad yn effeithiol. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr argymhellion, yn enwedig argaeledd gwybodaeth am berfformiad ar lefel gwasanaeth, gofynion ynghylch staff 1:1, a'r defnydd o wybodaeth feincnodi wrth symud ymlaen. Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr.

## Mynd i'r afael â chapasiti staff yn y Tîm Archwilio Mewnol.

Mae recriwtio i uwch rolau archwilio yn parhau i fod yn hynod o anodd ar hyn o bryd, ond mae'r Prif Archwilydd Mewnol wedi gwneud llawer yn y cyfnod hwn i fynd i'r afael â swyddi gwag o fewn y Tîm Archwilio Mewnol, gan gynnwys cyflwyno dwy rôl Archwiliwr Llwybr Gyrfa sydd wedi cael eu llenwi'n llwyddiannus. Fodd bynnag, bu rhwystr gyda phenodi i rôl y Prif Archwiliwr, a bydd angen ei hysbysebu am y trydydd tro yn awr.

## Hunanasesiad o Berfformiad

Yn ystod y cyfnod olaf hwn, ac yn parhau â'n proses barhaus ar gyfer Hunanasesu perfformiad yn erbyn ein swyddogaethau, lluniodd y cyngor ei ail adroddiad diweddaru perfformiad yn ystod y flwyddyn ar gyfer mis Gorffennaf i fis Medi. Trafodwyd hyn yng nghyfarfodydd y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Amlygodd yr adroddiad hwn yn fwyaf arwyddocaol y materion sy'n wynebu'r cyngor o ran recriwtio a chadw, sy'n cael ei ystyried yn ofalus gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chynghorwyr, a byddwn yn parhau i fonitro yn yr adroddiadau hyn.

Yr adroddiad diweddaru o fis Hydref i fis Rhagfyr hwn yw'r trydydd o'n hunanasesiad parhaus ar gyfer 2022 i 2023. Gellir gweld yr adroddiadau Ebrill i Fehefin blaenorol, a Gorffennaf i Fedi nawr ar dudalen perfformiad ein gwefan.

## Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

### Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, bu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol blynyddol am 2021 i 2022. Yn gyffredinol, cafodd y cyngor sgôr sicrwydd canolig ar gyfer ei systemau ac ymgysylltiad cyffredinol gweithwyr ag Iechyd a Diogelwch. Rhoddwyd sgôr sicrwydd uchel hefyd i gydymffurfiaeth y cyngor â safonau diogelwch Covid-19. Mae cyfrif damweiniau / digwyddiadau'r cyngor (2088) ar gyfer y flwyddyn yn debyg i'r blynyddoedd cyn y pandemig, er i un digwyddiad adroddadwy RIDDOR (allan o 19) gael ei ymchwilio gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sy'n anghyffredin. Roedd y digwyddiad yn ymwneud â sioc drydanol yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun, ond ni chanfu'r ymchwiliad unrhyw fai ar y cyngor na'r cyflenwr cyfleustodau, gan mai cebl tanddaearol oedd ar fai.

Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu rhai heriau o ran diagnosis Dirgryniad Llaw Braich a Syndrom Twnnel Carpel yn ystod 2020 i 2021. Y gobaith yw y bydd penodi Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol yn 2022 yn helpu yn hyn o beth.

### Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Fframwaith Rheoli Perfformiad

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad yn brysur ar hyn o bryd yn datblygu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd, gyda thrafodaethau'n cael eu cynnal ar bob lefel o fewn y cyngor. Bydd ein Fframwaith yn cynnwys dangosyddion allweddol sy'n dangos cynnydd yn erbyn ein naw thema, yn ogystal â mesurau perfformiad, prosiectau a gweithgarwch yr ydym yn eu hystyried yn gyfranwyr pwysig. Yr her fydd pennu set ystyrlon gyda ffocws, gan fod cyfoeth o wybodaeth ar gael ar draws y cyngor. Byddwn yn gosod trothwyon / targedau perfformiad sy'n cyd-fynd ag uchelgais y cyngor ar gyfer y Cynllun, a, lle bo'n bosibl, byddwn bob amser yn ceisio cynnwys data meincnodi / cymaradwy yn genedlaethol. Bydd y Fframwaith terfynol, a adwaenir hefyd fel ein Dogfen Glasbrint, yn cael ei gytuno gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet ym mis Mawrth cyn cael ei gynnwys yn ein system rheoli perfformiad (Verto), a'r gobaith yw y bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei adrodd arno yn ein hadroddiad diweddaru perfformiad diwedd blwyddyn a Hunanasesiad yn yr Haf. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, Pwyllgor Craffu Perfformiad, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac yn olaf y Cyngor fel arfer.

## Rheoli Risg

Gweler isod gamau gwella sydd wedi’u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

### Cofrestr Risgiau Corfforaethol

Yn dilyn yr adolygiad o’n cofrestr risg corfforaethol a gynhaliwyd ym mis Medi 2022, mae gennym gyfanswm o 20 o risgiau, ac mae 11 ohonynt yn anghyson â’n parodrwydd i dderbyn risg (55%). Daeth yr adolygiad i ben gyda nifer o risgiau’n gwaethygu (neu y rhagwelir y byddant yn gwaethygu), yng ngoleuni’r dirywiad yn yr economi a’r pwysau parhaus mewn perthynas â recriwtio a chadw a diogelu.

Mewn perthynas â’n risg o gamgymeriad diogelu neu ymarfer difrifol, nid yw’r sgôr risg wedi newid ac mae’n parhau ar y lefel uchaf. Mae sgôr y risg yn parhau ar lefel sydd wedi cynyddu ar sail ein hasesiad fod y siawns o hyn yn digwydd yn uwch ar hyn o bryd nag oedd yn flaenorol. Er nad ydym yn ystyried y tebygolrwydd fel “bron iawn yn sicr o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau” (sef y diffiniad o Debygolrwydd Risg A yn ein methodoleg risg), mae’r risg yn parhau ar lefel sydd wedi cynyddu. Mae'n parhau i deimlo'n briodol cadw'r sgôr Tebygolrwydd Risg ar A1 – Risg Critigol Bron yn sicr ac Effaith uchel iawn. Mae cadw’r sgôr risg ar y lefel hon yn galluogi’r risg i gael ei flaenoriaethu a’i uwchgyfeirio ymhellach, sy’n parhau’n briodol ac yn ofynnol ar hyn o bryd. Bydd ein Tîm Gweithredol Corfforaethol a’r Cabinet yn y Briff Cabinet yn monitro’r risg ac effeithiolrwydd ein rheolaeth ohono. Bob mis, mae Aelodau Arweiniol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth yn rhoi diweddariad llafar ar lefel y risg a'r camau sy'n cael eu cymryd i'w reoli a'i leihau.

Ym mis Hydref, ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad a oedd yn amlinellu canfyddiadau’r arolygiad ‘dilynol’ o’r Gwasanaeth Derbyn ac Ymyrraeth, Addysg a Gwasanaethau Plant. Nododd yr adolygiad ganfyddiadau cadarnhaol a meysydd i'w gwella, a lluniwyd cynllun gweithredu i wella'r meysydd hynny sy'n peri pryder. Roedd yr archwiliad dilynol wedi amlygu rhai meysydd o welliant, ond wedi cydnabod yr effaith o nifer uchel o swyddi gwag ar draws y gwasanaeth a oedd yn effeithio ar y daith i wella. Unwaith eto, cydnabuwyd bod cadw a recriwtio staff yn bryder cenedlaethol.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ym mis Tachwedd i drafod adolygiad risg mis Medi, a oedd yn cynnwys trafodaeth fanwl am yr heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw ac effaith y rheini ar nifer o'n risgiau corfforaethol. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai aelodau sydd â phryderon penodol am risgiau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol, ynghyd â'r rheolaethau sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny, eu huwchgyfeirio i'w harchwilio'n fanwl trwy gyflwyno ffurflen Cynnig Testun Craffu gan Aelodau i Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu.

## Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

### Perchnogion Risg

Disgwylir y bydd gwaith ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn arwain at newidiadau pellach i berchnogion risg unwaith y bydd wedi'i gwblhau. Bydd yr ymgynghoriad ar yr ailstrwythuro yn dod i ben ym mis Ionawr, ac ar ôl ystyried yr adborth bydd cynnig terfynol yn cael ei gyhoeddi a'i adolygu gan Banel Cydnabyddiaeth Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor. Os bydd unrhyw newidiadau i daliadau, bydd y rhain yn cael eu rhoi i'r Cyngor Sir i'w cymeradwyo.Yn y cyfamser, mae perchnogion risg presennol yn parhau i reoli eu risgiau a goruchwylio rheolaethau.

### Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg

Ym mis Tachwedd, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiweddariad ar gymhwyso methodoleg rheoli risg a thrafodwyd yr adolygiad o risg a gynhaliwyd yn fwyaf diweddar ym mis Medi 2023. Roedd yr Aelodau'n cytuno i gymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg Corfforaethol.

Cafodd datganiad parodrwydd i dderbyn risg y cyngor ei adolygu a'i addasu ddiwethaf ym mis Tachwedd 2022. Mae parodrwydd y cyngor i dderbyn y risg lleiaf mewn perthynas â'r Gweithlu: Telerau ac Amodau wedi'u llacio ychydig i barodrwydd gofalus i dderbyn risg, i adlewyrchu'r ffordd yr ydym yn 'hyblygu' prosesau recriwtio – mewn ffordd ddiogel – i liniaru heriau wrth lenwi rolau. Mae pob agwedd arall ar ein datganiad parodrwydd i dderbyn risg wedi aros yr un fath.

### Polisi Risg Gwybodaeth

Cymeradwywyd y Polisi Risg Gwybodaeth gan y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Rhagfyr, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn ystod y cyfnod nesaf. Gofynnir i Benaethiaid Gwasanaeth adolygu'r Polisi Diogelu Data a'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth unwaith bob blwyddyn. Bydd unrhyw faterion yn cael eu codi yn yr adroddiad blynyddol a gynhyrchir gan Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y cyngor.

Bydd risgiau gwybodaeth a reolir gan bob gwasanaeth yn cael eu hystyried yn ystod trefniadau cynllunio gwasanaethau ar gyfer 2023 i 2024, a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2023.

## Cynllunio’r Gweithlu

Gweler isod gamau gwella sydd wedi’u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

### Hyfforddiant, Datblygiad ac Iechyd Meddwl Staff

Mae adolygiad o’n polisi a chanllawiau gweithio’n hyblyg presennol ar y gweill, i gefnogi’r ffyrdd newydd o weithio. Cynhaliwyd ymgynghoriad a chyfarfodydd am y canllawiau drafft gydag undebau llafur yn ystod mis Rhagfyr. Mae cyfarfod terfynol gyda’r undebau llafur i’w gynnal ym mis Chwefror 2023, gyda’r polisi’n cael ei gwblhau a gofynnir am gymeradwyaeth gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol a’r Cabinet ym mis Ebrill 2023. Bydd deunyddiau a sesiynau cyflwyno i gefnogi staff a rheolwyr gyda’r ffyrdd newydd o weithio yn dechrau yn gynnar yn 2023, ar ôl derbyn cytundeb gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol.

Mae AD yn penodi Arbenigwr Dysgu a Datblygu arweiniol i oruchwylio a chyflwyno'r cynllun gweithredu iechyd meddwl. Byddant yn gweithio ochr yn ochr â Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl, unwaith y byddant yn eu lle, i sicrhau bod cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles wedi'i wreiddio ar draws y cyngor. Disgwylir i'r gwaith ddechrau unwaith y bydd yr Arbenigwr newydd yn ei swydd (cyn diwedd y flwyddyn ariannol).

Cynhaliwyd sioeau teithiol rhithiol i staff gyda’r Prif Weithredwr a’r Arweinydd ym mis Tachwedd. Mae’r rhain yn gyfleoedd gwerthfawr i staff gael gwybod mwy am gyfeiriad strategol, i ofyn cwestiynau, i godi syniadau ac i rwydweithio. Maent hefyd yn cael eu

gwerthfawrogi gan y Prif Weithredwr a'r Arweinydd; gan roi cyfle iddynt gwrdd â staff yn anffurfiol i drafod yr hyn sy'n bwysig iddynt.

### Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb i gefnogi dadansoddiadau manylach mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol. Mae gennym wybodaeth am gydraddoldeb ar gyfer 72% o staff, o gymharu â 76% yn flaenorol, a byddwn yn parhau i geisio gwella hyn. Oherwydd newidiadau mewn staff, mae'r wybodaeth cydraddoldeb sydd gennym am ein gweithlu yn tueddu i amrywio, er bod perfformiad wedi gwella'n fawr ers mis Mawrth 2021; pryd hynny roedd gennym wybodaeth ar gyfer 52% o'r staff.

### Cynllunio'r Gweithlu

Mae camau cynllunio'r gweithlu ar y gweill i symud ymlaen â chanfyddiadau adolygiadau cynllunio'r gweithlu ar lefel corfforaethol a lefel gwasanaeth. Mae cryn dipyn o ganolbwyntio ar recriwtio, yn enwedig i rolau gofal cymdeithasol ac iechyd. Cyflwynwyd adroddiad diweddaru bob chwe mis ar gyflawni'r cynllun gweithredu i'r Pwyllgor Gwaith Corfforaethol a'r Uwch Dimau Arweinyddiaeth yn ystod y cyfnod. Bydd diweddariad blynyddol yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2023.

Rydym yn gweithio i ddatblygu ein Strategaeth Iaith Gymraeg a'n Polisi Iaith Gymraeg, a fydd ill dau yn effeithio ar ddatblygu'r gweithlu a darparu gwasanaethau i gefnogi a chodi proffil y defnydd o'r Gymraeg o fewn y cyngor ac yn y gymuned ehangach. Disgwylir i'r Strategaeth a'r Polisi gael eu cymeradwyo a bydd y gwaith cyflawni yn dechrau o fis Ebrill 2023.

Ym mis Tachwedd, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiweddariad ar yr adolygiad risg a gynhaliwyd yn fwyaf diweddar ym mis Medi 2023 ac adroddiad gwybodaeth am faterion recriwtio a chadw yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd yr adroddiad yn crynhoi effaith heriau recriwtio a chadw yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ac Oedolion a'r camau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r heriau hyn. Bydd adroddiad manwl ar recriwtio, cadw a chynllunio'r gweithlu ar draws y cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan Bennaeth Dros Dro'r Gwasanaeth AD ym mis Ionawr 2023.

### Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Cydymffurfiaeth GDG

Mae recriwtio mwy diogel yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r cyngor. Dechreuodd aelod o staff dros dro ar ei waith ym mis Hydref ac mae wedi canolbwyntio’n llwyr ar fynd i’r afael ag ôl-groniad adnewyddu’r gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Mae cydymffurfiaeth bellach ar 90%, o gymharu ag 85% yn y cyfnod diwethaf. Un diwrnod bob wythnos, mae pob aelod o'r Tîm Cynorthwyol AD yn canolbwyntio ar fonitro recriwtio mwy diogel, ac mae'r ffocws hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ein perfformiad yn y maes hwn. Mae mesurau eraill i wella recriwtio mwy diogel yn cael eu hystyried.

## Asedau

Gweler isod gamau gwella sydd wedi’u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

### Strategaeth Rheoli Asedau

Rydym yn parhau i weithio ar ddatblygu'r strategaeth rheoli asedau ond mae capasiti o fewn y tîm yn effeithio ar gynnydd. Ar ôl i’r ymgeisydd llwyddiannus dynnu’n ôl o’r swydd rheoli asedau newydd (fel yr adroddwyd yn flaenorol), mae’r swydd wedi parhau heb ei llenwi ac wedi cyfrannu at yr arbedion yn ystod y flwyddyn yr oedd yn ofynnol i ni eu gwneud i fantoli ein cyllideb yn 2022 i 2023. Bydd proses recriwtio newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2023. Unwaith y bydd y strategaeth rheoli asedau newydd yn ei lle, byddwn yn datblygu ac yn cyflawni cynlluniau portffolio i bennu siâp, maint a defnydd asedau yn y dyfodol ar gyfer pob un o bortffolios rheoli asedau’r cyngor.

### Adroddiad Blynyddol Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

Cyflwynodd yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth Dros Dro (SIRO) adroddiad i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd ar lywodraethu gwybodaeth y cyngor. Mae dyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth a gedwir gan y cyngor yn cael ei rheoli'n ddiogel, yn effeithiol ac yn unol â deddfwriaeth. Roedd yr adroddiad yn cwmpasu’r cyfnod rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022 ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am achosion o dorri’r Ddeddf Diogelu Data sydd wedi bod yn destun ymchwiliad. Roedd yr adroddiad eleni yn adlewyrchu buddsoddiad cynyddol y cyngor mewn rheolaeth ddiogel o ddata, gan gynnwys mwy o ymgysylltu ag ysgolion, amser swyddogion penodedig ychwanegol yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, cydweithrediad traws-gyngor effeithiol ar ffurf y Grŵp

Llywodraethu Gwybodaeth, a chodi ymwybyddiaeth ar draws yr holl wasanaethau trwy hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol.

Er gwaethaf y gwelliannau hyn, roedd toriadau data yn dal i ddigwydd, er y gellid ystyried y nifer hwn yn gymharol isel, o ystyried faint o ddata sy'n cael ei drin. Cofnodwyd 36 o doriadau, cynnydd o 14 ers y flwyddyn flaenorol. Mynegodd yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth bryder, er nad ystyriwyd bod unrhyw un o’r digwyddiadau hyn yn hysbysadwy i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, roedd hwn yn dal i fod yn gynnydd sylweddol. Credwyd bod hyn yn gysylltiedig â'r newid yn yr amgylchedd gwaith. Roedd atebion yn cael eu datblygu (fel y potensial i ddefnyddio cyfeiriadau e-bost wedi'u llenwi'n awtomatig), ac roedd hyfforddiant ymwybyddiaeth yn mynd i gael ei dargedu at feysydd o'r cyngor â chyfraddau uwch o dorri rheolau. Mae hyfforddiant gloywi ar ddiogelu data wedi'i lansio ar gyfer yr holl staff. Disgrifiodd yr adroddiad hefyd rôl y cyngor wrth reoli Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Ceisiadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Cheisiadau Diogelu Data.

### Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Canolbwynt Cyfarfod Rhithiol

Nod y gwaith yw cefnogi cyfarfodydd rhithiol mewn ardaloedd lle bo cysylltiad band eang yn wael. Mae’r prosiect yn aros am ganlyniad cyllid grant Y Gronfa Ffyniant Gyffredin cyn gallu symud ymlaen unrhyw gam ymhellach.

### Cefnogi Busnesau a Phartneriaid i Addasu

Er nad oes rhaglen wedi’i datblygu eto i gefnogi a chodi ymwybyddiaeth ymhlith trigolion, partneriaid a busnesau o’r rôl y gallant ei chwarae wrth leihau allyriadau carbon, mae gweithgareddau’n cael eu cynnal drwy ein cyfathrebiadau carbon ac ecolegol rheolaidd a’r ffrwd waith newid ymddygiad sy’n gysylltiedig â’r rhaglen. Er enghraifft, mae ymgyrch urddas mislif gyda chynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio wedi'i lansio. Ymhellach, mae aelodau o’r Tîm Cyfathrebu, Bryson’s Recycling and Borrow Bus/reSource CIC (Cwmni Buddiannau Cymunedol dielw) wedi bod yn cydweithio ar raglen Dylunio’n Wahanol y Cyngor Dylunio. Maent yn edrych ar yr economi gylchol ac ailddefnyddio ar draws Sir Ddinbych ac wedi canolbwyntio ar y Bws Benthyca i geisio cynyddu ei ddefnydd.

## Caffael

Gweler isod gamau gwella sydd wedi’u nodi i gefnogi Iechyd Corfforaethol yn y maes llywodraethu hwn.

## Diogelu Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio mewn Caffael

Mae problemau capasiti'n parhau ac mae'r rhain yn dal i gael effaith ar gyflymder y cynnydd mewn perthynas â'r gweithredoedd hyn. Mae Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau i ddarparu cefnogaeth reoli dros dro i'r Tîm Caffael, yn absenoldeb Rheolwr Caffael. Bydd swydd Rheolwr Caffael Cydweithredol a Fframwaith yn cael ei hysbysebu eto.

Un maes gwaith allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan weithio ar draws y cyngor, fydd gweithredu'r strategaeth gaffael newydd, unwaith y caiff ei chymeradwyo, i gyflawni datgarboneiddio ac egwyddorion Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Bydd hyn yn golygu gweithio ar draws y cyngor i gefnogi cadwyn gyflenwi leol Sir Ddinbych.

Mae mesurau lliniaru carbon syml wedi'u cynnwys yn ein contractau ond gellid cyflawni gostyngiadau ehangach a mwy sylweddol mewn allyriadau carbon unwaith y daw Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn gyfraith. Wedi dweud hynny, mae bellach yn arfer safonol i brosiectau mawr (gwerth dros £1 miliwn) ddefnyddio cysylltiad â'r grid cenedlaethol ar gyfer trydan, pan fydd ar gael. Mae rhai prosiectau yn dechrau defnyddio opsiynau pŵer oddi ar y grid, e.e. llifoleuadau batri solar. Mae un contractwr sy'n gweithio ar brosiectau arfordirol, Balfour Beatty, bellach yn defnyddio swyddfeydd safle sydd wedi'u cysylltu â'r grid cenedlaethol yn hytrach na defnyddio generadur disel lleol ar gyfer cyflenwad pŵer. Arweiniodd cynllunio ynni clyfar a ddefnyddiwyd gan Balfour Beatty ar brosiect Amddiffyn Môr Dwyrain y Rhyl at leihad o 82% yn y defnydd o ynni gan y Swyddfa Safle a ddilyswyd yn annibynnol. Wrth symud ymlaen, bydd yr Hwb Buddion Cymunedol yn hybu'r defnydd o 'dariff gwyrdd' ar gyfer cysylltu â'r grid trydan.

Mae gostyngiad yn y milltiroedd a deithiwyd ar gyflenwi contract yn profi i fod yn heriol i'w fesur ac adrodd arno. Mae'r Hwb Buddion Cymunedol yn bwriadu adolygu'r dull o fesur yng ngoleuni Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

Yn ystod y cyfnod, bu'r Hwb Buddion Cymunedol hefyd yn cefnogi caffaeliadau cefn gwlad a chyflenwyr i ofyn am fesurau lliniaru a gwelliannau gan gyflenwyr wrth iddynt gyflawni contractau. Mae hyn yn golygu bod plannu coed yn mabwysiadu'r dull 'coeden iawn yn y lle iawn', yn ogystal â sicrhau gwelliannau ecolegol ac amgylcheddol eraill, megis

defnyddio deunyddiau dros ben, arbenigedd a pheiriannau i gefnogi prosiectau'r tîm Cefn Gwlad.

## Arbenigedd Caffael Datgarboneiddio

Mae'r Tîm Caffael wedi sicrhau cytundeb i recriwtio, ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint, arbenigwr datgarboneiddio newydd o fewn y tîm i fwrw ymlaen â datgarboneiddio yn ein caffaeliadau a'n cadwyn gyflenwi. Ond, mae recriwtio ar draws y cyngor a'r sector cyhoeddus ehangach yn parhau i fod yn hynod heriol.

## Rheolau'r Weithdrefn Gontractau

Bydd Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn cael eu diweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth newydd Caffael Cyhoeddus y DU sydd i ddod yn 2023 i 2024. Byddwn yn parhau i adrodd ar gynnydd drwy'r adroddiad hwn yn y cyfamser.

## Hyfforddiant Contract ar gyfer Staff

Erbyn diwedd Rhagfyr, roedd 82 o'r 121 o swyddogion a gyflwynwyd ar gyfer Hyfforddiant Rheoli Contractau Proactis wedi derbyn hyfforddiant. Cysylltwyd â'r 39 swyddog arall ac ymatebodd 4 i gadarnhau bod angen hyfforddiant arnynt o hyd. Rydym yn ystyried y gweithgaredd hwn yn rhan greiddiol o waith busnes fel arfer, a byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant ar y Modiwl Rheoli Contractau o Proactis yn ôl y gofyn. Ystyrir bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau, er ein bod yn ystyried cyflwyno dau fesur newydd i nodi nifer y staff sy'n gofyn am hyfforddiant Proactis a chanran y rhai sy'n cael hyfforddiant.

## Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Cynnal yr Hwb Buddion Cymunedol

Mae swydd rheolwr yr Hwb Buddion Cymunedol wedi esblygu o fod yn gontract cyfnod penodol i fod yn rôl barhaol. Gyda rheolwr ymroddedig a pharhaol yn ei swydd, mae'r Hwb yn gallu parhau i gymryd agwedd strategol at fuddion cymunedol ar draws y cyngor. Mae hyn - ynghyd â'n rôl arweiniol fel Cadeirydd Gweithgor Gwerth Cymdeithasol Llywodraeth Cymru - yn sicrhau ac yn codi proffil ein hymagwedd. Mae'r weithred hon bellach wedi'i chwblhau.

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

### Data 2019 i 2021

| Teitl | 2019 i 2020 | 2020 i 2021 | Statws |
|---|---|---|---|
| Canran y penodai newydd o geisiadau lle datgelwyd eu bod o grŵp hil neu grefyddol lleiafrifol, eu bod ag anabledd, yn hoyw neu ddeurywiol, neu eu bod wedi ailbennu rhywedd | 15 | 4 | Amherthnasol (cyfrif yn unig) |

### Data 2020 i 2022

| Teitl | 2020 - 2021 | 2021 - 2022 | Statws |
|---|---|---|---|
| Canran y gwahaniaeth yng nghymedr cyfradd tâl bob awr ar gyfer merched - **wedi'i feincnodi'n lleol** | -13.5 | 6.7 | Derbyniol |
| Canran y cyflogau isaf a delir (chwarter isaf) sy'n ferched - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 79.9 | 79.3 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |
| Presenoldeb aelodau (cyfredol ac a ddisgwylir), hyd yn hyn yn y flwyddyn (%) **wedi'i feincnodi'n lleol** | 89 | 84 | Da |
| Di-Garbon Net - Cyfanswm tunelledd carbon sy'n cael ei allyrru a'i amsugno gan y Cyngor (ac eithrio'r gadwyn gyflenwi) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 10,277 | 11,656 | Rhagorol |

**Data 2018 i 2022**

| **Teitl** | **2018 - 2019** | **2021 - 2022** | **Statws** |
|---|---|---|---|
| Bodlonrwydd cyffredinol gyda'r Cyngor (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 40 | 32 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |
| Partneriaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda nhw (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd yn 2021 | 62 | Da |
| Cynghorwyr a gweithwyr y Cyngor sy'n cytuno fod perthynas weithio dda rhwng arweinwyr gwleidyddol a'r uwch dîm rheoli (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd yn 2021 | 63 | Da |
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei berfformiad yn dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd yn 2021 | 28 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei risgiau a heriau'n dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd yn 2021 | 30 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn rheoli ei gyllid yn dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd yn 2021 | 26 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod gan y Cyngor gynlluniau hirdymor yn eu lle (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd yn 2021 | 31 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |
| Budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn trin ei weithlu'n dda (%) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Yn newydd yn 2021 | 35 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |

| Teitl | 2018 - 2019 | 2021 - 2022 | Statws |
|---|---|---|---|
| Budd-ddeiliaid sy’n cytuno fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o’i asedau ac adnoddau (%) - **wedi’i feincnodi’n lleol** | Yn newydd yn 2021 | 20 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |
| Budd-ddeiliaid sy’n cytuno fod y Cyngor yn prynu ei nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd effeithlon a theg (%) - **wedi’i feincnodi’n lleol** | Yn newydd yn 2021 | 25 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |

## Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

| Teitl | Chwarter 3 2021 - 2022 | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y Mesurau Cynllun Corfforaethol sy’n dangos ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’ - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 43 | 47 | 51 | 51 | Dim data: nid yw’n berthnasol | Dim data: nid yw’n berthnasol |
| Nifer y prosiectau ar y gofrestr prosiect sydd ‘dan fygythiad’ - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 | Da |

| Teitl | Chwarter 3 2021 - 2022 | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y prosiectau lle cafodd hyder o ran cyflawni ei ddiweddaru yn y tri mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 84 | 100 | 95 | 100 | 95 | Da |
| Canran y risgiau corfforaethol sy'n anghyson â datganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol (bob chwe mis)** | Dim data | 64 | Dim data | 55 | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |
| Nifer cronnus o'r adroddiadau negyddol gan reoleiddwyr allanol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Rhagorol |

| Teitl | Chwarter 3 2021 - 2022 | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer cronnus o adroddiadau sicrwydd isel Archwilio Mewnol, y flwyddyn ariannol hyd yn hyn - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 3 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rhagorol |
| Amrywiant Cyllideb Corfforaethol a Gwasanaeth (£k) | 2,731 | -2,399 | 1,109 | 2,661 | 2,189 | Amherthnasol (cyfrif yn unig) |
| Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor (£k) | 7,135 | 7,135 | 7,135 | 7,135 | 7,135 | Amherthnasol (cyfrif yn unig) |
| Straeon newyddion negyddol fel canran o'r holl straeon newyddion am y cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |

| Teitl | Chwarter 3 2021 - 2022 | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y cwynion allanol wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol dros y chwarter diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 52 | 60 | 46 | 67 | 53 | Derbyniol |
| Cyfartaledd treigl nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 9.03 | 9.57 | 10.18 | 10 | 9.8 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |
| Canran y staff sydd wedi cael o leiaf 3 cyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 36 | 43 | 45 | 52 | 53 | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |

| Teitl | Chwarter 3 2021 - 2022 | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y gwariant gyda chyflenwyr o fewn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 40 | 36 | 39 | 35 | 35 | Da |
| Canran cronnus o gontractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1,000,000 sy'n cynnwys manteision cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 88 | 88 | 100 | 64 | 64 | Rhagorol |
| Nifer cronnus o leoliadau profiad gwaith a gynigir o fewn y cyngor | 134 | 143 | 155 | 163 | 171 | Amherthnasol (cyfrif yn unig) |

## Camau Gwella

Isod mae camau gwella newydd sydd wedi cael eu nodi drwy'r adroddiad hwn:

- Arolwg o aelodau etholedig i benderfynu amser cyfarfodydd.
- Briffio ar gyfer yr holl gynghorwyr ar Fargen Dwf Gogledd Cymru.
- Risgiau gwybodaeth i'w hystyried gan bob gwasanaeth yn ystod trefniadau cynllunio gwasanaethau ar gyfer 2023 i 2024.